

Y GYMRAES SYDD WEDI HELPU I GREU BRECHLYN COVID-19 ASTRAZENECA RHYDYCHEN



Llongyfarchiadau i Emma Bolam sy'n wreiddiol o Benybont, Sir Gaerfyrddin am ei chyfraniad fel Pennaeth Adran Cynhyrchu brechlyn Rhydychen. Roedd Emma a'i chwaer Lucy sy'n awdures, yn aelodau ffyddlon gyda ni yr Ysgol Sul yng Nghapel Penybont. Aeth y ddwy i ysgol Hafodwenog a Bro Myrddin. Mae eu rhieni Chris a Toni Bolam yn byw ym Mhenybont.

Mae'r aberth mae Emma a'r tîm wedi'i wneud i'w gynhyrchu i'w gymeradwyo, a rydym ni fel ardal yn ddiolchgar ac yn browd iawn.

Diolch Emma a dymuniadau gorau i ti a'r tîm ar gyfer y dyfodol.

(Diolch i Linda Davies am ddod a'r erthygl i'n sylw ac am ei anfon, ynghyd a'r llun ymlaen.)

Mae Emma wedi bod yn wyddonydd yn Rhydychen ers bron i 25 mlynedd ac wedi helpu i gynhyrchu nifer o frechlynnau sy'n achub bywydau.

Mae'n cofio nôl i'r tro cyntaf iddi glywed am y feirws newydd, am mai dyna'r tro olaf iddi weld ei rhieni adeg Nadolig 2019 yng ngorllewin Cymru. Cofiodd ddarllen paragraff bach iawn mewn stori newyddion am rai achosion o pneumonia yn Wuhan, Tseina.

Roedd hi ddim yn meddwl byddai Covid yn cael sut effaith mae wedi ei gael, a doedd dim syniad y bydden nhw'n creu brechlyn sy'n nawr yn cael ei ddefnyddio ar draws y byd.

Mae cyflymder y broses i greu'r brechlyn wedi chwalu'r record o ran cyfnod creu brechlyn o'r dechrau i'r diwedd.

Mae ardal Y Cardi Bach yn ymfalchio yn ei llwyddiant ac erbyn hyn mae llawer wedi derbyn y brechlyn hwn.

Enillwyr £500 Y Raffl Fawr



Llongyfarchiadau i Hannah, Kerry a Daniel Reynolds, Santa View, San Cler ar ennill prif wobr y Clwb 200. Roedd Daniel oddi cartref ac yn absennol o'r llun.

Y CARDI BACH

Golygydd:	Rhoswen Llewellyn 01994 448283
Cadeirydd:	Eurfyl Lewis
Dosbarthwr	01994 419495
Ysgrifenyddes:	Beti Wyn James 01994 230966
Trysorydd:	Roy Llewellyn 01994 448283
Trysorydd y	Rhian White
Clwb '200':	01994 231338
Cysodwyr:	Wyn a Meirwen Evans 01994 448447
Ffotograffydd,	Roy Llewellyn
a Hysbysebion:	01994 448283
Ffotograffydd	Mel Jenkins
Cynorthwyol:	01994 240411
Dosbarthwr	Roy Llewellyn
drwy'r post:	01994 448283
Cystadleuaeth	John Arfon Jones 01994 240536
Cornel y	Albie Abbott
Dysgwyr:	01239 831641
Tudalen y Plant:	Llinos Mair Thomas
Llewyrch i'm	
Llwybr:	
Cornel Ceginio:	WinnieJames 01239 831754
Cornel Llên:	Nansi Evans 01994 448392 Rhoswen Llewellyn 01994 448283
Cornel Garddio:	John Davies 01994 240059

Newyddion, Llundain, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn 10fed o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygywyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

CYMRAG

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
Aberaeron. 01545 571115



Colofn Mis Chwefror

Iaith Y Nefoedd ?

Mae'r 11 mis diwethaf wedi rhoi cyfle i ni i gyd i bwysu a mesur y pethau bychain hynny nad oedd amser i'w dadansoddi'n llawn yn yr oes cyn Covid.

Yn bersonol, 'dw i wedi bod yn ceisio dadansoddi gwahanol faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Trist iawn, dwi'n clywed rhai ohonoch yn dweud. Nid yr agwedd ddirmygus ac anwybodus sy'n codi ei ben o bryd i'w gilydd gan garfan fechan swnllyd sy'n ddi-Gymraeg. Ond y gwrthdaro a checro mewnol ymysg Cymry Cymraeg, sy'n codi ei ben yn amlach, os gai fentro dweud.

Ry'n ni'n genedl gymhleth.

Os oes unrhywun o'r tu allan yn mentro dweud unrhywbeth sarhaus am ein heniaith, mae'r ymateb yn gadarn, gydag undod digyfaddawd. Ac eto, drwy bori ar gyfryngau cymdeithasol, dyw'r darlun ddim mor syml â hynny. Ac mae cecru dros faterion ieithyddol yn rhemp. Dwi'n prysuro i ddweud fod yna drafodaethau aeddfed a difyr hefyd.

Yn y byd cyfryngol gymdeithasol, sy' ddim yn hynod o gymdeithasol ar hyn o bryd, fe ddarllenwch chi sylwadau a chyhuddiau digon amhleserus a phersonol. Ond 'dw i'n cydnabod hefyd, ei bod hi'n hawdd camgymryd **tôn** sgwrs wrth ddechongli sylw ysgrifenedig, yn hytrach nag un ar lafar.

Mae *Plismyn Iaith* yn cael eu cyhuddo yn aml o ladd yr iaith Gymraeg. I'r rhai ohonoch sy'n anghyfarwydd â'r cyfryngau cymdeithasol, mae angen bod yn gryno ar rai o'r cyfryngau hynny, gyda'ch sylw neu farn yn cael ei gyfyngu i nifer penodol o lythrennau. Ac felly, yn y trydar-fyd hyd y gwela i, y diffiniad slic a chryno am *blismon iaith* yw rhywun sy'n cywiro iaith a gramadeg, gan danseilio hyder unigolion.

Ond wrth bwysu a mesur y cannoedd o sylwadau ieithyddol rydw i wedi wedi eu darllen yn y flwyddyn ddiwethaf, mae sawl carfan sy'n mynegi barn ar faterion ieithyddol. A dyma RAI o'r carfannau

Y garfan sy'n cyhuddo "*Plismyn Iaith*" o ladd yr iaith Gymraeg.

Y garfan sy'n credu y dylai iaith pawb fod yn berffaith yn ramadegol, ac sy'n cywiro'n gyhoeddus. (*Y Plismyn Iaith*, yn ôl rhai)

Y garfan sy'n credu y dylai iaith darlledwyr a newyddiadurwyr fod yn safonol. Ond na ddylid cywiro iaith eraill, yn enwedig y di-hyder.

Y garfan sy'n credu y dylid cywiro iaith dysgwyr y Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno hynny, er mwyn gwella eu sgiliau.

Y garfan sy'n credu na ddylid eu galw'n "ddysgwyr" neu'n "ail iaith"

Y garfan sy'n credu fod hyn yn ffwlbri llwyr, a'u bod bellach yn byw mewn oes lle mae'n nhw'n ofn agor eu cegau.

Y garfan sy'n credu nad oes angen cyfieithu geiriau newydd i'r Gymraeg, er enghraifft "Hashtag" i "Hashnod" ac yn casaaaaau'r gair "Hashnod."

Y garfan sy'n credu bod angen defnyddio geiriau Saesneg yn amlach, er mwyn sicrhau fod pawb yn deall y cynnwys. Dyma'r unig ffordd o gynyddu defnydd y Gymraeg, yw'r farn yma.

Y garfan sy'n dadlau fod geiriau Saesneg yr un mor annealladwy â'r Gymraeg yn aml. Mae "Dadgarboneiddio" yn "switch off" Ond wrth gwrs, mae "Decar-bonisation" yn tanio pob dychymyg!

Y garfan sy'n credu ei bod hi'n dderbyniol glynu at eiriau sydd wedi hen ennill

GOHEBWYR LLEOL

<u>ALMA:</u>	Margaret Evans 01994 230761
<u>BANCYFELIN:</u>	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
<u>BLAENWAUN:</u>	Tegwen James 01994 448223
<u>CAPEL MORIAH</u> (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meiniireynon@gmail.com
<u>CEFNYPANT:</u>	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
<u>CLUNDERWEN:</u>	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
<u>CWMBACH:</u>	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
<u>CWM MILES:</u>	Meinir Eynon 01437 563540
<u>CWMFELIN</u>	Nansi Evans
<u>MYNACH:</u>	01994 448392
<u>EFAILWEN:</u>	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
<u>GELLIWEN:</u>	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
<u>HENDY-GWYN:</u>	Mel Jenkins 01994 240411 j.jenkins736@btinternet.com
<u>HENLLAN -</u> <u>FALLTEG:</u>	Y Parch. Guto Llywelyn 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
<u>LOGIN:</u>	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
<u>LLANBOIDY:</u>	Meinir Eynon 01437 563540
<u>LLANDYSILIO:</u>	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
<u>LLANGLYDWEN:</u>	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
<u>LLANGYNIN:</u>	Jill Lewis 01994 419495 jill.llest@gmail.com
<u>MEIDRIM:</u>	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlemail.com
<u>PENYBONT:</u>	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
<u>PWLLTRAP:</u>	Una Williams 01994 484372
<u>RHYDYCEISIAID:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>RHYDWILYM:</u>	Doreen Adams 01994 240581
<u>SAN CLER:</u>	Eilir Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com
<u>TRELECH:</u>	Beti Wyn James 01994 230966
	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

eu plwyf, fel ystlys, maswr, sgarmes neu gic o'r smotyn, ym maes chwaraeon. Ond fod defnyddio ffrwchnedd, sbigolys, ysgewyll neu olew olewydd yn "silly" ym maes coginio.

Y garfan sy'n chwerthin nerth eu pennau ar y rhai sy'n defnyddio geiriau Cymraeg yn naturiol ar lafar. "Wyt ti eisiau'r pecyn creision caws a winwns neu saws Sir Gaerwrangon?" "Ro'n i'n dyst i hyn ar drip bws tra ro'n i'n blentyn, gyda llaw.

Y garfan sy'n credu fod cyfieithu Facebook a Twitter i Weplyfr a Trydar yn gyfoglyd a bod angen rhoi stop ar hynny. Does dim angen cyfieithu enwau cwmniau, yw'r neges yma. Yn ddiddorol, mae hyn yn digwydd yn y Ffrangeg hefyd gyda llaw... fel jôc.

"Fesses de bouc" – The French often call "Facebook" jokingly "Fesses de bouc" which means "goat's butt"... just because it sounds like it in French!"

Y garfan sy'n credu fod yr arfer o gyfieithu enwau cwmniau eraill fel Y Post Brenhinol neu Nwy Prydain yn dderbyniol gan eu bod yn enwau cwmniau cyhoeddus yn hytrach na rhai preifat.

Y garfan sy'n credu fod "Y Ty Gwyn" yn dderbyniol (unwaith eto, am ei fod wedi hen ennill ei blwyf) ond fod "Ben Mawr" yn hollol wallgo!

Mewn oes sy'n newid mor gyflym, a chymaint o dermau newydd yn cael eu bathu yn yr iaith fain, mae yna garfan sy'n credu ei bod hi'n holl bwysig bathu geiriau newydd yn y Gymraeg hefyd. Mae angen iddi fod yn iaith y dyfodol, nid y gorffennol.

Y garfan fechan o Ddeheuwyrr sy'n credu bod eu geirfa, tafodiaith a'u hacen nhw yn fwy safonol

Y garfan fechan o Ogleddwyr sy'n credu bod eu geirfa, tafodiaith a'u hacen nhw yn fwy safonol.

Y garfan sy'n mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol bod yn ail flwyddyn pan gan nhw, yn eu geirfa nhw "Eisteddfod go iawn". 'Dw' i wedi bod yn dyst i hyn hefyd, wrth giwio i fynd i'r tŷ bach.

Mae'r rhestr yn ddi-ben-draw. A 'dw i'n aelod o sawl carfan gyda llaw.

Nid yn fwriadol efallai, ond mae pob un o'r carfannau uchod yn mynegi barn a allai ddylanwadu ar lwybr y Gymraeg wrth iddi ddatblygu ac esblygu.

Onid yw pob un ohonom yn blismyn iaith felly?

Wedi dweud hynny, cadw'r heddw swyddogaeth yr heddw...lu, nid cywiro, ac felly gellid dadlau fod Plismon Iaith yn derm sy'n gwneud fawr o synnwyr yn y lle cynta. Mae plismyn wedi'r cyfan yn ceisio atal unrhyw wrthdaro. Ac mae hynny yn dipyn o her yn nheyrnas iaith y Nefoedd.

Ac er mwyn profi pa mor gymhleth yw'r sefyllfa, 'dw i'n gwybod y bydd rhai wedi sylwi ar wallau yn yr erthygl hon, tra bydd eraill wedi gorfod estyn am y geiriadur!

Iola Wyn, San Clêr

Colofn Mis Mawrth

Mae'n ymddangos fod mymryn o oleuni ym mhen draw'r twnel, a nifer yr achosion newydd o Covid-19 yn disgyn. Wrth i mi ysgrifennu hwn, daeth y newyddion y gallai'r rheolau sy'n cyfyngu ar ein symudiadau lacio fymryn yn fuan. Ond unwaith eto, mae'r awdurdodau yn rhybuddio pobol i bwylllo ac i beidio dad-wneud yr holl waith caled dros y misoedd diwethaf.

Mae'r tywydd heulog diweddar wedi codi calon, a gobeithion mawr y bydd

ein traed fymryn yn fwy rhydd dros gyfnod y Pasg. Mae ein trefi marchnad wedi bod yn boenus o dawel, a'r siopau mawrion yn ei chael hi'n anodd goroesi. Ond yn rhyfeddol, mae siopau bychain lleol wedi agor mewn trefi llai eu maint yn ystod y pandemig, a da gweld hynny. Ac mae'r busnesau hynny sydd wedi hen ennill eu plwyf wedi darparu sawl cymwynas yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i unigolion bregus a'r rhai fu'n gaeth i'w cartrefi. Daw amser i ddiolch iddyn nhw go iawn am eu gwasanaeth, ac i'w cefnogi wrth i fwy o ddrysau agor ar y stryd fawr.

Yn naturiol, dyw creithiau Covid ddim yn mynd i ddiflannu dros nos, a bydd hi'n heriol ar y stryd fawr am dipyn o amser. Ond mae'r pandemig wedi profi cyfleustra siopa'n lleol, yn enwedig i gwsmeriaid sy'n nerfus iawn ar hyn o bryd, ac yn ofn mentro i lefydd prysur. Yn fy ngwaith o ddydd i ddydd, 'dw i'n dal i glywed bobl yn dweud wrthai yn yr ardal hon, nad yden nhw wedi bod i Gaerfyrddin ers mis Mawrth 2020. Ac mae Caerfyrddin fel trefi eraill wedi cael ei llorio gan effeithiau Covid. Ond mae'n bwysig fod tref hynaf Cymru hefyd yn adfywio wedi'r cyfnod hunllefus hwn.

Gam wrth gam, bydd angen magu hyder wrth ddychwelyd i ryw fath o normalrwydd. Mae'n bur debyg y bydd mygydau yn rhan o'r normal newydd yma am gyfnod go faith. Ac mae'n bosib y bydd llai byth yn defnyddio darnau arian, gyda hofran cerdyn uwchben peiriant talu yn opsiwn llawer mwy diogel. Mae'r byd wedi newid, mae hynny'n sicr. A'r cwestiwn mawr - pryd yn union y bydd hi'n ddiogel i ni ysgwyd llaw neu goffleidio eto. Dyw'r ateb hwnnw ddim yn eglur eto.

Ond ry'n ni yn gwybod fod y cynllun brechu yn mynd yn ei flaen, diolch i ymroddiad staff y gwasanaeth iechyd a gwirfoddolwyr yn lleol. Mae hi'n ymdrech enfawr, a bydd angen un ymdrech enfawr gan bawb yn y gymuned er mwyn sicrhau fod diflastod y flwyddyn a fu, y tu cefn i ni.

Wnawn ni ddim anghofio'r tor calon. Wnawn ni chwaith ddim anghofio'r daioni a dreiddiodd drwy bob twll a chornel o'n cymunedau.

Iola Wyn, San Clêr

LLEWYRCH I'M LLWYBR

Golwg newydd ar Jwdas

Cefais fy magu yn Felinfach, hanner ffordd rhwng Llanbed ac Aberaeron. A chanolbwynt y pentref oedd Theatr Felinfach. Ac uchafbwynt y flwyddyn yn y theatr oedd y pantomeim. Ac roedd Pantomeim Theatr Felinfach yn enwog gyda phob tocyn wedi gwerthu mas misoedd o flaen llaw. A phob blwyddyn yn y 'panto' roedd yna ddyn drwg a phob tro byddai'n dod ymlaen i'r llwyfan byddai'r gynulleidfa yn gweiddi bw ac yn hisian. A phob tro y byddai'r dyn drwg yn siarad byddai'r gynulleidfa yn gweiddi bw ac yn hisian.

Ac mae un cymeriad yn y Beibl rydym yn meddwl amdano fel y dyn drwg mwyaf erioed sef Jwdas. Ugain canrif ar ôl iddo fyw mae dal yn cael ei ystyried y bradwr mwyaf erioed ac mae ei enw wedi dod yn gyfystyr â brad. Ond gyda ni yng nghyfnod y Pasg, ac wrth i ni gofio beth wnaeth Jwdas y Pasg cyntaf hwnnw, a ddylem fod yn cymryd golwg newydd ar Jwdas ? A oedd ef mor ofnadwy â beth rydym wastad wedi meddwl?

Iddew oedd Jwdas tra bod y disgyblion eraill i gyd yn Galileaid. Roedd cân gan y grŵp pop Trwynau Coch o'r enw "Wastad ar y tu fas". Ac mae'n siŵr fod Jwdas yn aml wedi teimlo ei fod "wastad ar y tu fas" fel Iddew yng nghanol y Galileaid.

Mae rhai yn credu mai bwriad Duw oedd i Jwdas fradychu Iesu a bod hyn yn rhan o'r cynllun mawr. Ond mae arbenigwyr fel Marcus Borg yn galw hyn yn "barbaric theology" a dywed Leslie Weatherhead "Nid oedd lofruddiaeth Iesu yn fwriad gan Dduw. Nid yw unrhyw lofruddiaeth neu unrhyw weithred o ddrygioni yn fwriad gan Dduw". Gallwn ddiystyri hyn felly.

Mae rhai yn credu mai trachwant am arian wnaeth i Jwdas wneud beth wnaeth ef. Ond go brin mai trachwant am arian oedd tu ôl i hyn. A fyddai dyn oedd wedi gadael popeth i ddilyn Iesu yn ei fradychu am ychydig gein-iogau ?

Sut mae esbonio beth wnaeth Jwdas felly? Roedd Jwdas yn Iddew gwladgarol oedd yn gobeithio fod Iesu yn mynd i ddechrau gwrthryfel mawr gyda'r cleddyf. Mae'n siŵr ei fod wedi cael siom mawr pan welodd mai ffordd heddwch oedd ffordd Iesu ac nid ffordd trais. Efallai i Jwdas benderyfynu ei fod yn mynd i orfodi Iesu i neud rhywbeth - "force his hand" fel y dywedir yn Saesneg. Meddylodd, o bosibl, os byddai ef yn ei fradychu y byddai rhaid iddo ddechrau gwrthryfel wedyn. Nid oedd wedi meddwl am eiliad y byddai Iesu yn cael ei ladd.

Ac yna yng ngardd Gethsemane mae Iesu yn dweud wrth Jwdas "Gyfaill, gwna'r hyn rwyf yma i wneud" ac mewn eiliad mae Jwdas yn sylweddoli beth mae wedi neud. Mae wedi camddeall y sefyllfa yn llwyr ac mae ei gynllun wedi methu yn drychinebus. Mae un peth yn arwain yn gyflym at y llall ac mae Iesu yn cael ei ddedfrydu i'w groeshoelio. Mae Jwdas bron yn wallgof erbyn hyn ac ni all weld ffordd mas ond trwy grogi ei hunan. Camgymeriad mawr Jwdas oedd meddwl y gallai newid Iesu a newid y sefyllfa. Credai ei fod yn gwybod yn well na Iesu. Ac mae'r beiau oedd yn Jwdas ynddo ni gyd. Pa mor aml i ni gyd yn ceisio newid pobl, newid sefyllfaoedd a chredu bod ni yn gwybod yn well na Duw?

Gwelwn felly fod beiau Jwdas ynddo ni gyd a dylem gofio hynny cyn beio Jwdas yn ormodol.

Mewn un gerdd mae R. Williams Parry yn dweud fel hyn am ei hunan :

"Rwy'n wych, rwy'n wael,
Rwy'n gymysg oll i gyd"

Roedd hynny yn wir am Jwdas ac mae'n wir amdanom ni gyd.

Parch. Guto Llywelyn

CYSTADLEUAETH gan John Arfon

Dyma atebion cystadlaethau y Nadolig.

A(i) Atebion Croesair y Nadolig.

Ar Draws

2. Pab, 3. Bwyell, 5 a 23. Nadolig Llawn,
7. Negesau, 14. Crymanu, 18. Fyny, 19,
21, 15 i lawr, 10 i lawr a 12. Gwell aderyn
mewn llaw na dau mewn llwyn,
20. Magwrfa, 22. Unwaith

I Lawr

1. Tan y bore, 3. Bwa, 4. Llai, 5.
Non, 6. Gau, 8. Gwely, 9. Santa, 11.
Tŷ, 13. Cyfle, 14. Cymry, 16. Ugain,
17. Helfa.

A(ii) Atebion Beth yw'r Canol?

1. Corn, 2. Gwlad, 3. Gwen, 4. Y Ddraig,
5. Pwdin, 6. Charles, 7. Dafydd, 8. Gwyn,
9. Canu, 10. Arian, 11. Haf, 12. John.

Y cyntaf allan o'r het yn y gystadleuaeth
yma ac sy'n ennill y wobr o £5 oedd Eric
Hughes, Hafan Dawel, Pwlltrap gyda Doro-
thy Williams, 5 Rhoswyn, Efailwen yn ennill
yr ail wobr o lyfr.

B(i) Wedi croesi allan y geiriau yn y
Chwilair dylech gael y frawddeg ganlynol
sef - **"Nadolig Llawn i Bawb."**

B(ii)

11+	5	3	1	2	6
5	2	3	1	4-	6
6	3+	2	12x	7+	4
	1	2	3	5	4
8x	2÷	6			30x
1	3	6	4	2	5
4	6	6+	5	3÷	2
		1		3	
2	20x	11+	6	1	3
	4	5			
3		2-	2	6x	1
3	5	4	2	6	1

Enillydd cystadlaethau B ac yn ennill y
wobr o £5 oedd Huw Davies, Glynderi,
Pwlltrap. **Diolchwn yn fawr iddo am roi
ei wobr yn ôl i'r Cardi Bach.** Yr ail o'r
het ac yn ennill llyfr oedd Nesta Rees, Pe-
nybryn, Pwlltrap.

C(i) Dyma atebion y Chwilrif X

1 3 8 4 9 6 7 5 2	8 2 1 6 9 3 4 7 5
2 4 7 5 8 3 1 9 6	3 4 5 8 2 7 9 1 6
5 9 6 7 2 1 3 8 4	9 7 6 4 5 1 8 3 2
4 6 1 9 3 5 2 7 8	7 6 4 3 8 9 2 5 1
9 7 3 8 1 2 4 6 5	5 9 2 7 1 4 3 6 8
8 2 5 6 7 4 9 3 1	1 3 8 2 6 5 7 9 4
6 1 9 3 4 8 5 2 7	6 1 3 9 4 8 5 2 7
3 8 2 1 5 7 6 4 9	2 8 7 5 3 6 1 4 9
7 5 4 2 6 9 8 1 3	4 5 9 1 7 2 6 8 3
4 6 5 3 9 8 7 2 1	
9 8 2 1 5 7 3 6 4	
7 3 1 6 2 4 8 9 5	
3 7 8 9 2 4 1 5 6	4 8 3 9 7 2 3 1 4 8 6 5
5 6 9 3 8 1 2 7 4	1 3 8 2 6 5 4 9 7
2 4 1 7 5 6 3 9 8	7 1 2 5 4 6 8 7 9 1 2 3
4 1 3 6 9 2 7 8 5	2 8 7 1 4 6 5 3 9
8 5 6 1 3 7 9 4 2	6 9 1 5 2 3 7 4 8
9 2 7 5 4 8 6 1 3	4 5 3 7 9 8 2 1 6
6 3 5 4 7 9 8 2 1	3 1 5 9 8 2 6 7 4
7 8 4 2 1 3 5 6 9	7 6 9 4 5 1 3 8 2
1 9 2 8 6 5 4 3 7	8 2 4 6 3 7 9 5 1

C(ii) Dyma atebion y Chwilrif mawr

1	2	10	3	12	7	6	4	5	11	9	8
6	11	4	9	10	5	1	8	12	3	7	2
7	8	5	12	9	11	3	2	1	6	10	4
12	3	7	8	2	9	10	6	4	1	11	5
2	9	11	6	4	1	5	12	8	7	3	10
10	4	1	5	7	8	11	3	6	9	2	12
8	5	9	2	1	4	12	7	11	10	6	3
4	10	12	7	3	6	9	11	2	5	8	1
11	6	3	1	8	10	2	5	7	12	4	9
5	7	2	10	6	12	8	9	3	4	1	11
9	12	8	4	11	3	7	1	10	2	5	6
3	1	6	11	5	2	4	10	9	8	12	7

Y cyntaf a'r ail allan o'r het yng Nghystadleuaeth C ac yn ennill
llyfrau o bosau Chwilrifau oedd John Lewis, Talarwen, Meidrim a
Rhian Jones, Arosfa, Bro Dirion, Clunderwen.

*Hoffwn pe medrai y rhai sydd wedi ennill y llyfrau yn y gwahanol
gystadlaethau ddod i gysylltiad â mi, oherwydd ni fedrwn ei gyrru i
chwi am fod costau postio mor ddud. Gallwn drefnu sut y medrwn
eu cael.*

Dyma atebion cwrosau y mis diwethaf

x	o	O	x	x	o
O	x	O	o	x	x
O	o	x	X	o	X
X	O	x	x	O	o
X	x	o	o	x	o
o	X	x	o	o	x

o	x	O	X	o	X
X	O	X	o	O	X
O	X	o	X	X	o
X	O	x	o	o	X
o	x	O	x	X	O
x	O	x	o	x	O

Dyma cwros a chwilrif i'ch diddori y mis hwn.

O				O	
O			O		
					X
		X			
	O			O	

Dyma atebion chwilrifau y mis diwethaf

4	5	1	8	3	2	7	9	6
8	6	7	9	1	5	3	4	2
3	9	2	4	6	7	8	1	5
5	3	6	2	7	9	4	8	1
1	2	4	3	5	8	6	7	9
7	8	9	1	4	6	2	5	3
9	1	3	7	2	4	5	6	8
6	7	8	5	9	3	1	2	4
2	4	5	6	8	1	9	3	7

		4			2	7	5	
				5	6			9
3			1					
4	3	5						
		8	3	9				4
	6		2		7			
			8					1
					4	8		
	9	7				2		

7	6	8	9	3	2	5	1	4
2	1	5	6	8	4	3	7	9
9	4	3	5	7	1	8	6	2
6	8	1	3	5	9	2	4	7
5	3	2	1	4	7	6	9	8
4	9	7	8	2	6	1	3	5
8	7	9	2	1	3	4	5	6
1	2	4	7	6	5	9	8	3
3	5	6	4	9	8	7	2	1

Mae dau bôs i chwi ddatrys yng nghystadleuaeth y mis hwn, a rhaid ateb y ddau yn gywir os am ennill y gwobrau

Dyma'r rhan gyntaf

A(i)

Cwblhewch y cwch gwenyn trosodd gan ateb y cwestiynau a roddir. Mae'n rhaid i bob ateb fynd i'r celloedd o gwmpas rhif y cwestiwn a dilyn cyfeiriad y saeth sydd ar ochr man lle mae'r ateb i fod. Mae'r atebion i 1.3.5, yn dilyn dwylo'r cloc (clocwedd), tra fod yr atebion i 2, 4, 6, yn cael eu rhoi i mewn yn groes i ddilyniant bysedd cloc.

Mae ateb rhif 1 yn dechrau gyda'r llythyren a ddangosir.

Cymerir ch, dd, ff ng ac yn y blaen fel un llythyren. ➡

Telerau hysbysebu yn Y Cardi Bach

Tudalen llawn (A4)	£60
Hanner Tudalen	£30
Cwarter Tudalen	£15
Sgwar 6cm x 6cm	£5

IFAN DAVIES

Saer Coed



Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA

07875 540469

W. J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch

SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU


Blaenwern, Clunderwen

Ffôn: 01437 563319




Dyma'r cliwiau :

1. Rheilen i ddal gafael ynddi.
2. Ceir un yn Harlech a Phenfro.
3. Rhoi gwybodaeth o flaen llys barn.
4. Geneth ifanc.
5. Rhan o lyfr.
6. Arwyddir siec â hwn.
7. Gwallgof.
8. Cerddoriaeth i dri llais.
9. Bwrw dafnau.
10. Cyfochrog i'r de.
11. Llawenydd neu foddhad.
12. Ar bwys neu wrth ymyl.



Dyma'r ail ran

A(ii)

A fedwch ddarganfod enwau'r llynnoedd a geir wrth ichwi ddatrys y rhifau canlynol gan ddefnyddio'r allwedd-bad (keypad) y teliffon a ddangosir. e.e. 23596 fyddai **Celyn**



- | | |
|-----------------|-----------------|
| 1). 397699 | 11). 25936 |
| 2). 273644 | 12). 3433936 |
| 3). 25993364 | 13). 723276 |
| 4). 64936 | 14). 79323326 |
| 5). 4996268 | 15). 34627 |
| 6). 83443 | 16). 2935596 |
| 7). 27236268 | 17). 43925 |
| 8). 2742663 | 18). 25237936 |
| 9). 559329 | 19). 38596 |
| 10). 4347466933 | 20). 7668784245 |

*Cynigir gwobr o £5 i'r cyntaf cywir allan o'r het a llyfr i'r ail.
Cofiwch fod yn rhaid i chwi ateb y ddau bôs yn gywir.*

Anfonwch eich atebion gyda'ch enw, cyfeiriad a'ch rhif ffôn erbyn Mai 1af 2021 i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn ar Daf, SA34 0AX os gwelwch yn dda. Cofiwch fod yn rhaid i chwi fod yn aelod o'r Clwb 200 os am y siawns o ennill gwobr, felly gwnewch yn siwr eich bod wedi ymaelodi am eleni.

Rwy'n gobeithio fod y rhan fwyaf ohonoch wedi cael y brechlyn erbyn hyn a gallwn ond gobeithio daw haul ar fryn o Orffennaf ymlaen. Cadwch yn saff.

**Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf**



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concriid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio

Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
— CLUDIANT —



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎ 01437 563725 • 07798 885305

**CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.**
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)

GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygywyn ar Daf



Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937

Clwb 200

**d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ**
Rhif ffôn:- 01994 231338
e-bost:- rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarlennwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n weddol iach ac yn ddiogel.

Diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi â'r Clwb a llongyfarchiadau i holl enillwyr y Raffl Fawr. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn eleni ar 'Zoom' a hoffwn ddiolch i bawb am eu cymorth i wneud y broses yn un hwylus a llwyddiannus.

Diolch i un enillydd, sy'n dymuno aros yn ddienw, am roi'r wobwr yn ôl i'r gronfa.

Bydd rhestr o holl aelodau'r Clwb 200 yn ymddangos yn rhifyn mis Mai o'r Cardi Bach.

Dyma restr o enillwyr y Raffl Fawr:-

£500

Hannah, Daniel a Kerry Reynolds, Santa View, San Clêr.

£300

Julie ac Aled Thomas, Zoar Chapel Cottage, Hendydwyn

£200

Eleri Williams, Y Bwthyn, Meidrim.

£100

Ronnie a Mair Morgan, Piccadilly, Llanboidy.
Carwyn Davies, Blaenffynnon, Henllan Amgoed.

£75

Ruth Davies, Radyr Way, Llandaf.
Peter a Siân Lewis, Fferm Dollaston, Cas-Wis.
Cennydd a Rhian, Blaenau, Rhydaman.
Tom Morris, Awenydd, Rhiw'r Orsaf, San Clêr.

£50

Sammy Thomas, Brynderwen, Hendydwyn.
Vicky Young, Walford Road, Rhosan ar Wy.
Sion a Lloyd Jackson, Parc yr Odyn, Llanfallteg.
Don a Susan Phillips, Gorwelion, Llangynin.
Hubert Phillips, Waunfawr, Llanboidy.
George a Sheila Bancroft, Porth Ceri, Hendydwyn.

£40

Simon a Faith Wright, Broderwen, Clunderwen.
Mair Griffiths, Penplas, Llangynog.
Elsbeth Scott Robinson, Kintore, Aberdeen.
Alexia Jones, d/o Wilma Robins, Hornchurch, Essex.
Andrew a Rhian James, Arosfa, Glandy Cross.
Janet James, Dolwerdd, Talylychau.

T a VEJ Evans, Henglos, Hendydwyn.
Eilir Davies, Ardwyn, Pwlltrap.
Robert a Lisa Davies, Lôn Hafren, San Clêr.
TD Ladd, Clunderwen.

£30

Claude a Lynette James, Bryn Gwenllian, Hendydwyn.
Wyn a Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach.
Tomos Rees, Tŷ Hawddgar, San Clêr.
Valerie Dixon, Penllwyngwair, Llanboidy.
Beryl Thomas, Isfryn, Llangynog.

£25

Pam Jones, Stryd Fictoria, Talacharn.
Iwan a Meinir Jenkins, Fferm Rhosfach, Efailwen.
Tegwyn Evans, Saron, Llangeler.
Alan a Jean Brown, Walford Road, Rhosan ar Wy.
Russell Llewellyn, Tŷ Uchaf, Llandysilio.

£20

Ann Thomas, Clydfan, San Clêr.
Winnie James Phillips, Gwêl y Frenni, Crymch.
Bryan a Mearl Owen, Tyla Rhosyr, Y Bontfaen.
Byron a Morwen Edwards, Parc y Fro, Creigiau.
Anthony a Ceirios Jenner, Gwêl y Meini, Efailwen.

Aelodaeth Rad

Jerry Williams a'i Feibion, Cloth Hall, Llanboidy.
Elizabeth White, Gerddi Trefychan, Hendydwyn.
Ann Lewis, Heol yr Orsaf, Arberth.
Milfeddygon San Clêr.
Geraint a Cherry Evans, Fronfelin, Cwmbach.
Evan Rees, San Clêr.
Siop Sarah, Hen Dŷ Gwyn.
Dai a Mary Evans, Cnwcyriw, Cefn y Pant.
G a S Llewellyn a'u mab, Llandysilio.
Jill Lewis, Lluet, Llanglydwen.

Llongyfarchiadau hefyd i'r canlynol am ennill yn ystod y misoedd diwethaf.

Ionawr

242 - Bronwen Hicks, Tŷ'r Ysgol, Redberth - £20
306 - Elizabeth White, Gerddi Trefychan, Hendydwyn - £10

Chwefror

89 - Dil Agri, Pentregar - £20
649 - Delyth Roblin, Fferm Glynty, Clunderwen - £10

Mawrth

Beti Thomas, Lôn Fair, San Clêr - £20
Ann Lewis, Heol yr Orsaf, Arberth - £10

Diolch yn fawr a chadwch yn ddiogel,

Rhian

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid

Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendydwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

FFERYLLFA EVANS
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr

01994 230444  01994 230456

eich canolfan gofal iechyd lleol
*Cyngor rhad ar gael gan
ein staff profiadol*


T. D. LADD
a'i GWMNI
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

CORNEL Y DYSGWYR

Albie Abbot

Shwmae. Gobeithio bod pawb yn ardal Y Cardi Bach yn cadw'n saff o hyd rhag y firus. Sa i wedi gweld fy mam ers mis Chwefror y llynedd ond dwi'n ei ffonio hi'n aml. Ta waeth dyma rywbeth cloi i chi i'w wneud yn ystod y cyfnod clo.

Pob lwc, *Albie*

PLAID CYMRU

Sefydlwyd Plaid Cymru yn 1925. Ei enw gwreiddiol oedd Plaid Genedlaethol Cymru. Ymhlith ei haelodau cyntaf roedd Saunders Lewis ac Ambrose Bebb.

Nôd y Blaid oedd ennill statws Dominiwn i Gymru, ac ymladdwyd ei hetholiad cyntaf yn 1929. Cafodd y llywydd, Lewis Valentine, 609 o bleidleisiau yn Sir Gaernarfon. Yn ystod llywyddiaeth Saunders Lewis, denwyd deallusion i'r Blaid yn anad neb. Chafodd y Blaid ddim llwyddiant etholiadol, er i weithred symbolaidd eu harweinwyr wrth losgi'r Ysgol Fomio ym Mhenyberth, Gwynedd yn 1936 ennill cydymdeimlad eang.

Ar ôl 1945, pan ddaeth Gwynfor Evans yn Lywydd, tyfodd aelodaeth a dylanwad y Blaid yn gyson, ac yng nghyfnod boddi Cwm Tryweryn dechreuodd y Blaid ennill seddau mewn etholiadau lleol led-led y wlad, yn enwedig ar ôl i Gwynfor Evans gael ei ethol yn Aelod Seneddol dros Gaerfyrddin mewn etholiad yn 1966. Er i Gaerfyrddin gâl ei cholli, mae gan y Blaid bedwar Aelod Seneddol erbyn hyn.

Cafodd y Blaid lwyddiant yn yr Etholiadau cyntaf i'r Cynulliad Cenedlaethol yn 1999, gan gipio seddau yn y de 'diwydiannol' – yn Llanelli a Chaerffili – sydd yn cael eu hystyried yn gadarnleoedd y Blaid Lafur, gan ei gwneud hi'r ail Blaid fwyaf yn y Cynulliad, a'i pholisi swyddogol yw ymgychu i gryfhau grym y Cynulliad yn raddol.

GEIRFA:	deallusion	-	intellectuals
	Yn anad neb	-	more than anyone
	Boddi	-	to drown
	Led-led	-	throughout
	Ymgychu	-	to campaign
	Grym	-	power.

1. Ym mha flwyddyn cafodd Plaid Cymru ei sefydlu?
2. Beth oedd enw gwreiddiol y Blaid?
3. Enwch ddau o'i haelodau cyntaf – a).....b).....
4. Beth oedd bwriad y Blaid ar y dechrau?
5. Ym mha flwyddyn yr ymladdodd y Blaid ei hetholiad cyntaf?
6. Beth ddigwyddodd yn 1936?
7. Pwy ddaeth yn llywydd y Blaid yn 1945?
8. Pryd dechreuodd y Blaid ennill seddau mewn etholiadau lleol?
9. Beth yw prif bolisi'r Blaid erbyn hyn?

CYMDEITHAS Y BEIBL CYLCH BECA

Yn anffodus, ac oherwydd Cofid, nid oedd yn bosib cynnal gwasanaeth Sul y Beibl yng nghapel Glandŵr eleni ac felly mae'r cwrdd wedi'i ohirio tan 16 Ionawr 2022.

Bethesda, Llawhaden	25.00
Bethel, Mynachlog-ddu	75.00
Blaenconin	25.00
Calfaria, Login	100.00
Glandŵr	25.00
Hebron	25.00
Horeb	20.00
Nebo	50.00
Pisga, Llandysilio	70.00
Rhydwylym	50.00

CYFANSWM

£465.00

Cornel Garddio

Yn anffodus nid oes Colofn Garddio i gael mis yma. Mae John Davies, Hendygywyn, sydd a gofal y golofn wedi bod yn yr ysbyty ar ôl salwch. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo ac edrychwn mlân i ddarllen ei erthyglau yn fuan.

Annwyl ddarlennwyr a gohebwyd. Bob yn ailfis bydd y Cardi Bach yn cael ei argraffu hyd fis Medi gan obeithio fydd pethau yn weddol normal erbyn hynny. Felly ni fydd rhifyn i gael yn Ebrill na Mehefin. Felly anfonwch unrhyw newyddion, cyfarchion, lluniau a.y.y.b. erbyn y 10fed o fis Mai ar gyfer y rhifyn nesaf. Diolch yn fawr.

Preseli storage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Efelldre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com



**Detholiad o anrhegion
Cymraeg a Saesneg
o safon**

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843

E-bost: llawncariad@gmail.com

Facebook: Llawn Cariad

www.llawncariad.co.uk

MERCHED Y WAWR

Cangen Beca

Dyma lun o Cennin Pedr, Merched y Wawr y tu allan i Gaffi Beca. Mae'r blodau bach yn rhoi gobaith y cawn gyfarfod a'n ffrindie dros dished a chacen unwaith eto. "Ein hiaith a'n gwlad, fe'u caraf fwy a mwy, Fe bery popeth hardd tra paront hwy,"



Cangen San Cler

Llongyfarchiadau i Lilwen ar enedigaeth gor-wyres, Isla Catherine, merch fach i Josh a Jamie.

Llongyfarchiadau, hefyd, i Marian ar enedigaeth wyres fach, merch i Deian a Sophie.

Dymunwn wellhad buan i Marian sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar a da clywed fod Sally yn gwella'n dda yn dilyn llaw-driniaeth.

Dymunwn bob hwyl yn eu cartrefi newydd i Margaret Rees sydd wedi symud i fyw yn Rhydygors ac i Rhian sydd wedi symud i Banc Ostrey.

Trefnwyd noson "O Drefach i Dorchester" ar Zoom gan y Rhanbarth a chafwyd noson ddifyr yn clywed hanes Hazel Thomas, Swyddog Datblygu Ceredigion a Phenfro, o'i magwraeth yn Nhrefach Llanwenog, hyfforddi fel cogydd yn y Dorchester, Llundain ac erbyn hyn dychwelyd i fyw yn ei hen gartref yn Nhrefach.

Hefyd cafwyd noson ar y cyd gyda Rhanbarthau Penfro a Cheredigion yng nghwmni Adam yn yr Ardd. Clywsom hanes ei ardd a chael llawer o gynghorion defnyddiol i'w defnyddio wrth baratoi'r ardd.

Mae'r Mudiad wedi trefnu sawl cyfarfod difyr a mwynhawyd sesiynau gan Flodau Blodwen a Bethan Gwanas ymysg eraill.

Archddiacon yr Hybarch Eileen Davies

Mae'r Archddiacon yr Hybarch Eileen Davies newydd dderbyn yr MBE am ei gwaith yn sefydlu Elusen Tir Dewi. Dyma'i hanes.



Merch fy milltir sgwar dwi i, wedi fy ngeni a'm magu ar dyddyn yn Llanllwni, lle mae'n rhieni'n dal yn byw. Wedi mynychu Ysgol Gynradd, Llanllwni, ac Ysgol Uwchradd Llanbedr

Pont Steffan cyn gadael yr Ysgol yn 16, gyda lefel O. Gweithio mewn swyddfa yn cadw cyfrifon am ddeng mlynedd, cyn priodi Dyfrig, a symud i fferm Gwndwn, Llanllwni, yn 1990, a chydamaethu. Erbyn hyn mae Owain yr unig fab yn amaethu mewn partneriaeth gyda ni, ag ef yw y chweched genhedlaeth ar y ffarm.

Fel gwraig fferm, beth fyddai'ch dyletswyddau ?

Rwyf bob amser yn cyfeirio ataf fy hunan fel ffermwr, oherwydd rwyf wrth fy modd yn ceisio gwneud tipyn bach o bopeth ar y ffarm. Godro yw dyletswydd cyntaf y dydd, a braf y'w cael dechrau'r bore yn godro y fuches bedigri Holstein o dan yr enw Llanllwni, a phan adref mae yna gyfle i switcho bant yn godro nos hefyd. Mae gyda ni ddiadell o ddefaid, ac adeg wyna o Nadolig i Ebrill byddaf yn cynorthwyo Owain yn y sied ddefaid. Sdim byd yn rhoi mwy o bleser na gweld bywyd newydd. Byddaf yn fy seithfed nef ar gefn tractor, ac yn aml rwyf yn cyfeirio fy mod ar wyliau yn torri silwair neu carto'r byrnau mawr.

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
 Cyfrifwyr Siartedig
 Hendygywyn
 01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

CEGINAU CLASUROL
Classic Kitchens
Hendygywyn ar Daf

Ceginau ac Ystafelloedd Gwely wedi eu gwneud i fesur	David a Jackie John Uned 1-3 Stad Ddiwydiannol Hendygywyn ar Daf
---	---

Ffôn: 01994 240176 • Ffacs: 01994 240572

CBS
 CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
 Uned 7A, Parc Gwynfryn,
 Crymych. SA41 3RQ
 Ffôn: 01239 831444

Rydych nawr yn archddiacon, pryd a beth wnaeth i chi ymgymryd â gwaith yr Eglwys?

Dechreuodd fy nhaith ar lwybr yr eglwys pan roeddwn yn blentyn ifanc yn mynychu'r Ysgol Sul yn llaw gwraig a oedd yn byw drws nesaf i mi, ac y bu yn ddylanwad mawr ar fy nhaith fel Cristion. Mynychais Eglwys Llanllwni dair gwaith y Sul, o dan adain Yr Hybarch Sam Jones, ein Hoffeiriad, a Mrs Jones ei briod. Mi fues yn athrawes Ysgol Sul o oedran 16, ac yna yn Warden yr Eglwys pan oeddwn yn ddeunaw, Trysorydd yr Eglwys yn ddiweddarach, ac yna cychwyn ar y daith i Ordeinio yn y flwyddyn 2000. Drwy'r blynyddoedd cynyddu wnaeth yr alwad, a rhaid oedd ildio yn y diwedd. Ordeiniwyd fi yng Nghadeirlan Tŷ Ddewi yn Ddiacon yn 2004, ac yna Offeiriad yn 2005. Gwasanaethais fel Curad yn ardal Llanbed am bedair blynedd yn rhan amser, ac yna Offeiriad a Gofal llawn amser o 2008 i 2019 yn Llanerchaeron, Ciliau Aeron, Dihewyd a Mydroilyn. Mi gefais fy nhrwyddedu yn 2005 fel Ymgynghorydd Materion Gwledig yr Esgobaeth yn Nhŷ Ddewi, swydd angerddol i mi a chefais y pleser o'i chyflawni tan 2020. Cefais fy anrhydeddu fel Canon Mygedol i Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi yn 2012, ac yna Canon a sedd Llanfaes, 2014. Bu yna dro ar fyd yn 2019, lle y gwahoddwyd fi fod yn Archddiacon Aberteifi gan Esgob Tŷ Ddewi, ac yna symud adref gyda gofal Llanllwni, Llanybydder, Llanwenog, a Llanwnnen. Gofal dros Ogledd Sir Benfro, Ceredigion a rhan o Sir Gâr y'w tirwedd Archddiaconiaeth Aberteifi, ac yn araf bach yn dod i arfer a'r swydd o gefnogi Offeiriaid a lleygwyr y fro.

Rydych wedi dod yn adnabyddus drwy Gymru gyfan drwy eich gwaith gyda'r elusen Tir Dewi. A fedrwech roi ychydig o hanes yr elusen?

Sefydlwyd Tir Dewi yn Awst 2015, ar ôl sgwrs rhyngof ag Esgob Wyn, Esgob Tŷ Ddewi ar y pryd, am yr angen i gynorthwyo pobl yng nghefn gwlad, ac asgwrn cefn cefn gwlad yw ein hamaethwyr. Felly ar ôl cyfarfod agored i drin a thrafod y ffordd ymlaen, lansiwyd Tir Dewi ar faes Sioe Sir Benfro yn Awst 2015, i wasanaethu Sir Gâr, Ceredigion a Phenfro. Mae Tir Dewi yna i gynorthwyo unrhyw ffermwr o ba bynnag gefndir sydd angen unrhyw gefnogaeth, dyw maint na natur y broblem ddim yn bwysig, mae yna ffordd i'w ddatrys. Rydym erbyn hyn yn cyflogi un person llawn

amser, a phedwar rhan amser, gyda 60 o wirfoddolwyr, ac erbyn hyn yn ymestyn cymorth hawdd i'w gael yn Sir Gâr, Ceredigion, Penfro, Powys a Gwynedd. Mae gennym linell ffôn rhad ac am ddim, sydd â rhywun yn barod i'w hateb bob dydd o'r wythnos. Mae'r gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi, a mae cydlynnydd y gwirfoddolwyr yn sicrhau fod pawb yn cael ei hannog. Mae cynllun newydd gychwyn i weithio gyda Ffermwyr Ieuainc er mwyn tyfu cenhedlaeth newydd o ffermwyr na fydd arnynt ofyn gofyn am gymorth. Rydym yn rhwydweithio gyda nifer eraill o elusennau a mudiadau, yn ogystal ag Undebau Amaethyddol, a'r gwasanaeth iechyd, yn ogystal a gwasanaethau ac asiantaethau stadudol llywodraeth Cymru a lleol.

Nod Tir Dewi y'w estyn clust hollol gyfrinachol i ffermwyr rannu eu gofid a'u baich, llaw o gyfeiriad i ddangos pwy fydd orau i'w cynorthwyo, a byddwn wrth ochr ffermwr am ba hyd bynnag fydd angen cymorth.

Sut ydych wedi ymdopi a'ch dyletswyddau yn ystod y cyfnod clo? Pa effaith mae Covid 19 wedi ei gael ar waith yr elusen?

Yn ystod y pandemig ar y ffôn ni wedi gweithredu fwyaf, rhai dim ond am gael sgwrs er mwyn cael sicrwydd fod yna rywun ar gael os fydd angen. Ni yn ymweld os yw'r mater a'r broblem yn ddyrws iawn, ond rhaid cadw pellter a diogelu y ffermwyr yn ogystal a'r gwirfoddolwyr.

Rydych yn amlwg yn wraig hynod o brysur, sut ych chi'n ymlacio a rhoi amser i chi'ch hunan?

Mae fy nheulu yn bwysig tu hwnt, ac wrth fy modd yn cydweithio neu yn ymlacio yn eu cwmni. Rwyf wrth fy modd yn cael y fraint o hyfforddi aelodau'r ffermwr ieuainc lleol yn siarad cyhoeddus, gosod blodau a trwsio fflowls. Os am amser ar ben fy hunan, dim yn well na cherdded ychydig filltiroedd bob nos, glaw neu hindda, golau dydd neu lleud y nos.

Beti-Wyn James

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth mam Eileen sef Mrs Ivy Evans, Aberdaudwr, Llanllwni (gynt o Sarnau, Llanboidy) ar Fawrth 7fed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r teulu. (Gol.)





Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE

 **Atgyweirio a M.O.T.**

Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr

ALLPUMP SERVICES

ARBENIGWYR MEWN PWMPs FFYNNON
 A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
 SYSTEMAU DŪR BRWNT A SOLAR

Fferm Ffynnonlwyd
 Llangynin
 San Clêr
 SA33 4LD

Ffôn: 01994 448310
 Ffacs: 01994 448693

e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SION HARRIES
SEIRI COED

EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED

 **FFÔN:-**
01994 240857 

RHYDWILYM

Yr ydym yn dymuno yn dda i Llinos Edwards, sydd wedi treulio peth amser yn yr ysbyty, ond sydd bellach mewn cartref gofal yn Arberth.

Mae Leighton Bryan Colman House, yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty. Pob hwyl iddo, a gwellhad llwyr a buan.

Llongyfarchiadau i Manon ac Emlyn ar enedigaeth mab bach, sef Oliver. Mae'r babi yn wŷr i Sian a Simon Jones, Penfro, Eglwysrwr, a gor-wyr i Brian Llewelyn.

....hefyd i Euros ac Eluned Jones, Llechwedd, Capel Newydd, a fu'n dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. 'Euros a finne yn unig fu'n dathlu - yn dawel adre yn Llechwedd', medde Eluned.

Mae Huw Absalom, Fferm y Bush a'i briod Janice wedi symud i fyw i ardal Llandeilo, Dyffryn Tywi. Pob bendith i'r ddau yn eu cartref newydd.

TRELECH

Capel y Graig

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig Ddigidol y plant, eu rhieni a'r ieuencid ar Sul, 20fed o Ragfyr. Gwnaeth y plant berfformio Drama'r Geni a chafwyd darlleniadau, gweddiau a myfyrdod gan y bobl ifanc. Gan bod hi'n arferiad yng Nghapel y Graig i gynnal 'Plygain' ar Noswyl Nadolig aethpwyd ati i gynnal oedfa 'zoom' eleni am 11.30 yr hwyr gyda aelodau capeli'r ofalaeth yn cymryd rhan. Diolch i bawb a gymerodd ran ac i bawb fu'n trefnu ar gyfer y ddwy oedfa. Diolch arbennig i Anwen Phillips am drefnu'r Zoom.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Bronwen James, Caerwenog a fu farw yn ysbyty Glangwili ar ddechrau mis Chwefror. Cofiw'n arbennig am ei phriod Clive a'r plant Adrian a Carys a'u teuluoedd.

Dymuniadau gorau i Frank ac Ina Barnett, Clunview, y ddau wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau mawr i Karl a Georgina, Caerwenog ar enedigaeth bachgen bach - Idris David

Llongyfarchiadau hefyd i fodryb ac ewythr Georgina sef Phil a Beverley, Treparciau ar ddod yn ddatcu a mamgu eto i Bryn Robert, ail fab i Gavin a Sally a brawd i Ioan.

Mae Angela a Lenny, Yr Hen Siop, wedi cael wŷr bach newydd hefyd. Cian Hedd, mab Sarah ac Aled, Crymmych a brawd bach i Aria.

Dymuniadau gorau i Cerys, Tre-to Isaf sydd yn dathlu ei phenblwydd yn 21 y mis hwn.

Mae Milton Rees, Blaen Dewi Fach hefyd wedi dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau iddo yntau.

Llongyfarchiadau mawr i Picton Thomas, Melrose, sydd wedi dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Mae Sally Jones, San Clêr, sy'n aelod ffyddlon o Gapel y Graig, hefyd yn dathlu penblwydd arbennig ar ddiwedd mis Mawrth.

Croeso mawr i Maisy a Marley Brooks sydd wedi dod i fyw at Angela a Lenny yn yr Hen Siop. Mae'r ddau wedi dechrau yn Ysgol Hafodwenog ac wrth ei bodd yn eu cartref newydd.

Diolch

Erbyn hyn mae Frank ac Ina Barnett wedi rhoi'r gorau i ddosbarthu'r Cardi Bach yn ardal Trelech. Dymuna pwyllgor Y Cardi Bach ddiolch o galon iddynt am eu gwasanaeth dros lawer o flynyddoedd gan ddymuno'r gorau a iechyd i'r dyfodol.

Mae'r Cyng. Jean ac Ambrose Lewis wedi gwirfoddoli i gymeryd at y gwaith felly cysylltwch â hwy os am gopi. Diolch iddynt.

BLAENWAUN

Moriah Blaenwaun.

Diolch i'n gweinidog y Parchedig Gareth Ioan am gynnal oedfaon digidol. Mae yn ein harwain mewn oedfa Gymun misol ac yn cynnal myfyrdod ar y we ac ar y ffôn ar linell tir. Mae rhai o'r aelodau yn medru manteisio ar hyn ac yn cael bendith o'r gwasanaethau. Hyderwn y bydd modd cynnal oedfaon yn y capel yn fuan, yn y cyfamser diolch iddo hefyd am gadw cysylltiad â'r aelodau. Cofion at yr aelodau i gyd. Rydym yn meddwl yn arbennig am Glyndwr Davies yng nghartref Garreg Lwyd o dan amgylchiadau anodd COVID 19. Hyderwn y bydd modd i'w deulu fynd i'w weld yn fuan.

Dymuniadau gorau i Derek ac Irene Davies, Highlands a ddathlodd eu Priodas Ddeiamwnt ym mis Ionawr. Hefyd mae Derek a Marion Davies, Heol Shôn wedi dathlu eu penblwydd, y ddau yn wyth deg oed. Pob dymuniad da iddynt a iechyd da i'r dyfodol.

HENLLANFALLTEG

Llongyfarchiadau i Thierry a Helen Seal, The Old Smithy, Henllan Amgoed ar enedigaeth wyres arall. Ganwyd merch fach, Lilly i Christopher a Louise ddechrau Chwefror. Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd.

LOGIN

Calfaria - Myfyrdodau

Diolch o galon i'r canlynol am baratoi myfyrdodau diddorol a bendithiol ar ein cyfer yn ystod yr wythnosau diwethaf :- Mr Huw Roberts, Mr Hedd Ladd Lewis, Mr Euros Rhys Evans a Mr Alun Lenny.

Cynhaliwyd cyfarfod deiaconiaid drwy gyfrwng zoom ar ddiwedd mis Chwefror. Roeddwn wedi gobeithio ail agor y capel ar gyfer oedfa Gymun Sul y Pasg ond penderfynwyd aros nes bydd pawb wedi derbyn dau ddos o'r brechlyn cyn gwneud hyn. Y bwriad nawr yw ail agor ar gyfer oedfa Gymun mis Medi. Rydym yn parhau i gefnogi achosion da yn ystod y cyfnod rhyfedd hyn - cyfranwyd tuag at Apel Timothy Richard, i gefnogi gwaith y BMS gyda phlant ffoaduriaid o Syria a ddihangodd i Lebanon. Rydym hefyd wedi cyflwyno hamper swmpus i griw'r Gwasanaeth Ambiwlans ac eleni byddwn yn cefnogi Sefydliad DPJ, sy'n cyflawni gwaith gwybwrth gynorthwyo pobol o ardaloedd gwledig, amaethyddol yn bennaf, sy'n diodde o salwch meddwl. Ein braint a'n dylestwydd yw cefnogi elusennau mewn modd ymarferol fel hyn.

Gan fydd y capel yn para ar gau, byddwn yn parhau i ddarparu myfyrdodau am y 5 mis nesa. Dyma'r dyddiad ar gyfer Ebrill a Mai, cofiwch ymweld a thudalen facebook Capel Calfaria Login :-

Ebrill 4ydd - Parch. Judith Morris (Cymun Sul y Pasg)

18fed - Parch. Peter Thomas

Mai 2il - Mrs Annalyn Davies (Cymun)

16eg - Parch. Denzil John

30ain - Mr Emyr Phillips

Cydymdeimad

Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Hywel Llewellyn, Dancware ar farwolaeth ei chwaer sef Bronwen Davies, Aberteifi yn ddiweddar. Coffa da amdani.

Penblwydd

Dymunwn benblwydd hapus hwyr i Margaret Morgan, Pump Hewl (Llandre gynt) sydd newydd ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

Braf i'w gweld bod defnydd da yn cael ei wneud o'r ganolfan, ar ôl yr holl welliannau, gan y Cylch Meithrin. Gobeithiwn yn wir y medrwn ei hail agor i'r gymdeithas yn fuan iawn.

Trist oedd clywed am farwolaeth Bronwen Davies, Aberteifi a hithau ychydig flynyddoedd yn ôl wedi agor Ffair Hâf y ganolfan. Roedd ei gwreiddiau yn ddwfn yn yr ardal ac estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu agos a'r teulu ehangach, nifer ohonynt â chysylltiadau â'r ardal.

Ar nodyn hapusach rydym am ddymuno'n dda i Margaret Morgan, Pump Hewl, Llanelli, (hithau hefyd wedi agor ein Ffair Hâf flynyddol), ar achlysur penblwydd arbennig yn wyth deg oed. Pob lwc ac iechyd da i'r dyfodol.

Cylch Meithrin Ffynnonwen



Dyma blant y Cylch wedi gwisgo lan i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Pawb wedi dysgu llawer amdano ac yn edrych yn smart iawn. Hyfryd gweld yr addurniadau yn y cefndir.

Codwyd swm o £462 wrth gasglu dillad oedd pobl ddim eu hangen mwyach. Diolch i'r rhieni ac i Heather Young o elusen 'The Heart' am eu rhodd caredig o fan llawn o ddillad.

GWYDRIADAU DWBL
G.N.E.
 DOUBLE GLAZING
 TAI GWYDR
 LANDER A
 FFASGIAU UPVC
 GWYDRIADAU EILAIDD
 BLYNYDDOEDD
 O BROFIAD
 GWAITH O SAFON
 UCHEL
FFENESTRI DRYSAU

 Gareth Edwards
 Derbyn
 Gerddi'r Ffynnon
 Hendygywn ar Dâf
Ffôn: 01994 240688 Mobile: 07774 788349

AM Y DEWIS GORAU GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
 Y Farchnad, Caerfyrddin
Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy
Ffôn: 01267 235044


Fferyllfa Clunderwen
 GWASANAETH DOSBARTHU
 AR GAEL

 Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
 Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
 Clunderwen. SA66 7NP

Cofio Garry

1953-2020



Mae'n anodd credu bod blwyddyn gyfan wedi mynd heibio ers colli Garry mor sydyn ar ddydd Mercher 25ain o Fawrth 2020.

Ganwyd Garry yn un o bump o blant yn Helston, Cernyw. Ymgartrefodd y teulu yn Sir Benfro pan

oedd Garry yn ei ardegau cynnar wedi blynyddoedd o deithio o gwmpas gyda'r Llynges Frenhinol.

Ychydig feddyliodd yr un ohonon ni yn 1971, wedi cyfarfod mewn dawns Ysgol Ramadeg Hendygywyn, bydden ni gyda'n gilydd bron 50 mlynedd yn ddiweddarach.

Cawson ni fywyd cyffrous a chyflawn wedi i ni briodi yn 1977-yn gyntaf fel pâr ac yna fel teulu wedi geni Rhys yn 1983. Bu'n amser prysur. Dechreuodd Garry ei yrfa fel athro yn Ysgol Uwchradd Cyfarthfa, Merthyr Tudful a bu yno am dros 20 mlynedd cyn symud ymlaen fel dirprwy bennaeth yn Ysgol Uwchradd Cilycoed. Bu llawer o fwynhau gwyliau haf, sgïo, chwarae rygbi i dîm Rhiwbeina a gweiddi ar Barc y Strade a Pharc y Scarlets.

Daeth pennod newydd i'n bywydau yn 2004 gyda'r penderfyniad i symud o Gaerdydd a sefydlu cartref newydd nôl yn Llandre. Bu Garry'n Ymgynghorydd Addysg yn Sir Gâr cyn derbyn swydd fel Pennaeth Ysgol Uwchradd Aberteifi. Yn ystod y blynyddoedd d'wetha', bu'n Lywodraethwr yn Ysgol Beca am gyfnod ac yn Gadeirydd Canolfan Gymunedol Ffynnonwen. Gweithiodd tuag at uno'r gymuned a chroesawu pobol newydd i'n plith fel y cafodd ef ei

groesawu flynyddoedd yn ôl.

Doedd dim llawer o ddewis gyda Garry ond i ddysgu siarad Cymraeg wedi cwrdd â'r teulu yn Llandre! Roedd wrth ei fodd yn teithio gyda grŵp Beca fel drymiwr ac fe wnaeth sicrhau taw Cymraeg oedd iaith y cartref. Mae'n gymaint o drueni na chafodd y cyfle i barhau fel Cadeirydd Cangen Bro Tâf o Blaid Cymru fel yr oedd wedi bwriadu. Ie, fel ysgrifennodd Rhys mewn portread o'i dad unwaith, 'Cymro yw dad.'

Roedd y darlun yn gyflawn. Roedd Rhys a Clare wedi priodi a chanddyn nhw dwy ferch fach-Nancy a Betty lle roedd Garry wedi edrych mla'n at fod yn rhan o'u bywydau fel tadcu. Roedd gyrru i Ffrainc i aros yn ein bwthyn o'r enw 'Les Gallois' ym mynyddoedd y Pyrenees yn rhan o gynlluniau'r dyfodol hefyd. Ond daeth y cyfan i ben llawer yn rhy fuan. Roedd tipyn mwy ar restr Garry i gyflawni.

Sut fyddwn ni yn ei gofio? I'w gyn-ddisgyblion a ffrindiau, y parch a ddangosodd tuag atynt. Ei gefnogaeth a'i garedigrwydd dywed y teulu. I Rhys a finne? Cofiw'n ni Garry am ei gryfder a'i agwedd bositif, ei ofal a'i gariad tuag atom bob amser.

Bydd rhaid i nifer fawr ohonom ni yn y gymuned gael nerth yn ystod y misoedd nesa' i ffeindio'r ffordd ymlaen. Gobeithio bydd yr atgofion gwerthfawr sy' gyda ni yn ein cynnal ni gyd, ond am nawr.....

'Hiraeth a lenwa fy mron.'

Mari Brame

Ni allwn fforddio colli-ein holl wŷr
Sy'n llawn o wrhydri,
Fu ochr yn ochr â ni;
Y gŵr a elwir Garry.

Gwenallt Llwyd Ifan.

Y gofal mwy na'r gofyn a roddaist
i bridd pob planhigyn,
a rhoi iddynt yn wreiddyn
wreiddiau dwfn dy ardd dy hun.

Ceri Wyn Jones.

arwyddion
eaglesigns

Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Llifrau Cerbydau...


01994 231 749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk

UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS
Dandre
Llanboidy

 Paentiwr ac
Addurnwr

Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL
 Monraker 
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
 
Ffôn: 07837 089648

CWMFELIN MYNACH

Ramoth

Ail-agor y Capel. Y penderfyniad yn yr oedfa gynhaliwyd tu allan ym mis Medi llynedd oedd y byddem yn adolygu'r sefyllfa ym mis Mawrth eleni. Bu'r swyddogion yn trafod y mater ar y ffôn a'r farn unfrydol oedd, oherwydd fod y corona feirws yn dal yn fygythiad, mae gwell byddai gohirio ail-agor hyd mis Medi. Erbyn hynny bydd pawb wedi cael y brechlyn ac yn teimlo'n fwy hyderus i fynychu oedfa.

Penblwydd Arbennig

Pob dymuniad da i Catrin Jones, San Clêr a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 40 oed ar Ebrill 19eg.

Cydymdeimlwn â Roy Llewellyn ar farwolaeth ei gyfnither Mrs Bronwen Davies, gynt o Maesyllan, Login

...hefyd â Caroline James, Blaendyffryn ar farwolaeth ei hewythr David Lewis o Drefach Felindre.

Penblwyddi

Penblwydd hapus i Nansi Evans, Penybont a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 96 ar Ebrill 25ain.

Bu Shaun James, Blaendyffryn yn dathlu ei benblwydd yn 18 oed ar Chwefror 11eg ac hefyd Andrew Williams, Woodlands yn 40 oed ar Fawrth 8fed.

Penblwydd Hapus yn 40



Penblwydd Hapus a phob dymuniad da i Catrin Jones a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 40 ar Ebrill 19eg. Oddi wrth Dad, Mam, Andrew, Jac a Cai, Cennydd, Rhian, Gwenno a Sara.

LLANBOIDY

Cydymdeimlwn

Gyda thristwch daeth y newyddion am farwolaeth Dewi Rees, Bron-y-Gaer yn 97 mlwydd oed. Symudodd i fyw i'r pentre wedi iddo ymddeol o ffermio yn Blaenpanteg. Cydymdeimlwn â'i ferched a'u teuluoedd.

Penblwydd Hapus

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i John Rees, Erw-Lon ar gyrraedd ei benblwydd yn 80 oed ar Fawrth 7fed.

Dymunwn yn dda i Susan Davies, Maesywerin ar ôl iddi gael damwain car yn ddiweddar. Yn ffodus, ni chafodd niwed drwg ond bu'n brofiad ofnadwy.

Diolch

Dymuna Lilian a Hafwen ddiolch o galon am yr holl negeseuon o gydymdeimlad oeddent wedi derbyn ar yr amser trist o golli eu hannwyl Dad, Dewi Rees, Bronygaer, Llanboidy. Hoffent hefyd ddiolch i bawb yn yr ardal a ddaeth allan i ddangos eu parch ar ddydd yr angladd, y tu allan i'r tŷ ac ar y ffordd i Benygroes. Gwerthfawrogwyd eich cefnogaeth yn fawr iawn.

PWLL TRAP

Llongyfarchiadau i Daniel O'Callaghan ar ddathlu ei benblwydd yn 21 oed. Braf hefyd oedd ei weld yn cystadlu ar y rhaglen deledu "Am Dro" yn arwain taith o gwmpas Pentywyn.

Dymunwn benblwydd hapus i Huw Davies, Glynderi sy'n dathlu ei benblwydd yn 65 oed ar Fawrth 20fed.

Pob dymuniad da i Eifion Edwards, Gorsfach a fydd yn ymddeol ddiwedd Mis Mawrth ar ôl 44 mlynedd yn gweithio i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Cydymdeimlwn â Sylvia King-Thomas a'r teulu ar farwolaeth ei mam, Doris Rogers o Hendygywyn.

Hefyd â Cliff a Sharon, Maes yr haf. Bu farw tad Cliff, sef Cliff Cleaton o Henffordd yn ddiweddar.

Bethlehem Newydd

Llongyfarchiadau i Rhodri a Marian ar enedigaeth wyres fach, merch i Deian a Sophie a chwaer fach i Rhodri a Rhys.

Da yw clywed fod Marian ar wellhad wedi anhwylder yn ddiweddar. Hefyd, bod Sally'n gwella'n dda yn dilyn llaw-driniaeth ar ei llygad.

Rosemarie Davies

Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon

Cyflogau
Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Safle siop trin gwallt Chris, Crymch

Salon
Harddwch
a
Chyflenwol

Ffôn:
01239 831479

Wyndham Phillips a'i Feibion

POBYDDION
COUNTY STORES

San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

BANCYFELIN

Capeli Cana a Bancyfelin

Mae Oedfaon Cana a Bancyfelin wedi bod yn ddigidol dros yr wythnosau diwethaf. Penderfynwyd cau drysau'r capeli unwaith eto am y tro gan bod y lefelau Covid mor uchel. Rydym wedi bod yn cynnal sawl cyfarfod dros Zoom yn ystod yr wythnos, gan gynnwys Paned a Sgwrs a Chwedd Gweddi. Mae'r Ysgol Sul wedi bod yn cwrdd dros Zoom hefyd a'r plant wedi ymateb yn dda i'r gweithgarwch sy'n cael ei anfon atynt wedi'r sesiwn Ysgol Sul. Diolch i bawb am addasu unwaith eto. Edrychwn ymlaen at flwyddyn gwell yn 2021.

Yr Ysgol Sul



Gibeon

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Tegwen Evans, Bradford House, ar drothwy ei phenblwydd yn 95 oed. Bu Tegwen yn weithgar yng Ngibeon yn enwedig wrth baratoi'r festri gogyfer â gweithgareddau a gynhaliwyd yno. Cydymdeimlwn yn ddiwyll â'i phlant, Ann, Huw, Nesta, Mair a Catrin a'u teuluoedd. Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol yn y tŷ dan ofal y Gweinidog ac ym Mynwent Pencader dan ofal y Parch. Beti-Wyn James.

Cydymdeimlwn â Sandra ac Alun Davies a'r teulu ar farwolaeth chwaer-yng-nghyfraith Sandra, sef Bronwen James o Drelech.

Hefyd ag Annalyn Davies a'r teulu ar farwolaeth cefnder Annalyn, sef John Meirion Davies o Landysul.

Mae Olive Davies wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan iddi.

Hyfryd oedd gweld Sioned Evans, Gwarwenallt ar y newyddion ar y teledu yn son am y newid cyfeiriad yn ei bywyd yn sgil y pandemig. Pob dymuniad da iddi gyda'r gwaith arbennig o helpu'r ieuenctid di-gartref yn Llanelli.

Diolch i'r Gweinidog am ei negeseuon cyson a llongyfarchiadau iddo ef a Marian ar enedigaeth wyres fach.

CEFNYPANT

Capel Cefnypant

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth aelod gweithgar o Gapel Cefnypant, sef Mrs. Marina Thomas, Pantyce-lyn ar Ionawr 19eg yn 84 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Mrs. Marion Anthony a Mr. Hefin Thomas a'u teuluoedd.

Estynnwn hefyd ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs. Lilian Bevan a Mrs. Hafwen Abbs a'u teuluoedd, ar golli eu tad, sef Mr. Dewi Rees, Bronygaer, Llanboidy. Roedd Dewi hefyd yn aelod cefnogol iawn o Gapel Cefnypant. Bu farw ar Ionawr 30 ain yn 97 oed.

Dymuniadau Gorau

Dymunwn yn dda i Mrs. Fanw Davies, Rhoswyn, Efail-

Colin J. Harries
Cigydd o Safon 
Gwasanaeth arlwyio ar gael hefyd
London House, 
Hendygywyn-ar-Dâf 01994 240705
Galwch i mewn am y dewis gorau


15 Stryd St Ioan, Hendygywyn,
Sŵn Gârffnodin, SA34 0AN
01994 240 366
GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK
GERALDBLAINASSOCIATES.COM
@GBASSOCIATES

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR
 
Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symbdol: 07971 558514

wen, sydd wedi dychwelyd adre ar ôl gwario cyfnod hir yn yr ysbyty.

Cyfarchion Penblwyddi Arbennig

Dymuniadau gorau i Mary Evans, Cnwce y Rhiw ar ddathlu ei phenblwydd ar Ionawr 27ain, ac i'w brawd, Elfed Owen, Lan, ar ddathlu ei benblwydd yntau ar Chwefror 15ed.

Pob dymuniad da i Mr. Brython Phillips, Glennydd, Sancler, ar ddathlu penblwydd arbennig ar Chwefror 10fed.

Penblwydd hapus hefyd i Pam Owens, Maesyrhaf ar ddathlu ei phenblwydd ar Fawrth 16eg.

(Mae dau neu dwy o'r pedwar yr un oedran!)

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Marina Thomas, Pantycelyn, Login, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

EFAILWEN

Braf clywed fod Fanw Davies, 2 Rhos Wyn, Efailwen adref ac yn teimlo'n well o lawer ar ol treulio 3 mis yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymuniadau gorau iddi.

Penblwydd Hapus yn 90 oed



Dymuna Fanw Davies, 2 Rhos Wyn ddiolch o galon am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 90 oed mis Hydref diwethaf. Hefyd, hoffai ddiolch am yr holl ddymuniadau da a dderbyniodd tra'n yr ysbyty.

SAN CLÊR



Llongyfarchiadau mawr i Eric Adams, Richmore, San Clêr ar ddathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Fedi 16eg. Dymuna Eric ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob caredigrwydd a ddangoswyd.

(Ymddiheuriadau i Mr Eric Adams am na chafodd y llun a'r neges eu cynnwys yn rhifyn Hydref.)

Llongyfarchiadau i Diana a Jamie, Picton Ferry ar enedigaeth mab bach, Gruffydd ar ddechrau Ionawr. Llongyfarchiadau, hefyd, i dadcu a mamgu, sef Edmund a Brenda Davies, Gothic Villa.

Llongyfarchiadau i Hannah (Jameson) a Tom o Clos Griffith Jones ar eu dyweddïad ac i Elin Davies, Hendre, ar ennill Gwobr Aur Dug Caeredin.

Yn drist, collwyd nifer o'r ardal eto yn ddiweddar.

Bu farw Val Morse, Gerddi Mair. Roedd Val yn adnabyddus iawn yn y dre, bu hefyd yn byw ym Mhwll Trap ar un adeg. Cydymdeimlwn â'i phriod, Geoff, a'r plant a'u teuluoedd.

Yn 57 oed bu farw Keith Jenkins. Cydymdeimlwn â'i wraig a'i blant.

Brawychwyd yr ardal wrth glywed am farwolaeth y Rhingyll Lynwen Thomas mewn damwain ger Bancyfelin. Cofiwn am ei theulu yn eu colled.

Hefyd, gyda thristwch, clywsom am farwolaeth disymwth Meirion Jones o Lanllwch a fu'n reolwr

DH

**DAVID HARRIES
& Co**

DH

CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD

Westgate, West Street
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf

**"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"**

**PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH**

01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

Allen and Partners

Milfeddygon

ALLEN & PARTNERS
Veterinary Services Ltd

Hendygywyn: 01994 240 318

Carmarthen Farmers yn San Cler. Cydymdeimlwn â'i deulu yntau.

Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Elinor Jones, Cefn Maes, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar.

Buodd Dewi Griffiths, Cartref Clyd, Lôn Hafren, yn seiclo pum milltir o amgylch maes parcio San Cler yn ddiweddar, i godi arian tuag at Ysbyty Glangwili. Mae am ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu.

HENDYGWYN AR DAF

Capel y Tabernacl

Duw ar 'Zoom'

'Duw ar Zoom' oedd teitl cerdd ardderchog Casia Wiliam i ddisgrifio ein haddoliad y dyddiau hyn. A Duw ar 'Zoom' yw hi wedi bod yn ystod wythnosau cyn-
taf 2021 yn y Tabernacl, Hendy-gwyn. Ers Sul cyntaf y flwyddyn rydym wedi cynnal oedfa wythnosol ar fore Sul trwy 'zoom'. Rydym wedi bod yn edrych ar y disgyblion ac mae'r aelodau wedi bod yn cymryd rhan. Hefyd ar drydydd Sul Chwefror fe gawsom Alun Lenny fel pregethwr gwadd a hynny trwy 'zoom'. Croeso cyn-
nes i unrhyw un ymuno gyda ni a hefyd i ymuno yn y cwisiau misol a'r Grŵp Trafod y Beibl sydd yn cwrdd bob bythefnos. Mae'r cyfan yn digwydd trwy 'zoom' a chysylltwch gyda Guto ar 01269 851655 i gael y cyfrinair.

Un darn arall o newyddion. Llongyfarchiadau i Carys James a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 50 yn ddiweddar. Pob dymuniad da wrth bawb yn y capel. Yn anffodus colodd Carys ei mam-gu, Mrs Annie Davies, a oedd yn 106 mlwydd oed, rhai diwrnodau yn ddiweddarach ac rydym yn cydymdeimlo gyda hi yn ei cholled.



Carys James yn 50 oed

Dyma'r gerdd gan Casia Wiliam sydd yn crynhoi profiadau cymaint ohonom y dyddiau hyn :

Duw ar Zoom

Rhywsut aeth Duw yn ddiaith.

Rhwng y naw tan bump a plant i'w gwlaŵ a gwaith yn galw doedd dim lle iddo yn sêd fawr fy mywyd.

Bob hyn a hyn ddi yn ôl yn annisgwyl wrth i mi lenwi troli, neu lyncu'r Ê ffôr sefnti ond wastad â chymun o euogrwydd am beidio twyllu ei dŷ cyhyd.

Ond rŵan, a ninnau yng nghanol y tywyllwch tywyllaf, dyma fo, ar fy nglin, lond y sgrin, lond y gegin.

Duw ar Zoom.

A ffasiwn sinig, mi daerwn y byddwn wedi mynd am y groes yn syth, ond na, arhosais ennyd i glywed adnod, i geisio ei lais eto, i weld os medrwn estyn croeso iddo yn fy nhŷ fy hun.

Ac yn lle'r festri oer a chwech yn gwmni dyma lond y we o gwmpeini; a dros goffi, mewn pajamas, yn ein gwlaŵ ella, daeth y ne' atom ni. O dro i dro, rŵan ei bod hi'n dechra g'leuo, wrth i mi osod bwrdd neu hel llestri brecwast, mewn eiliad o heddwch, mi ga i ryw air bach efo fo a mae o i' weld ddigon bodlon i ni gwrdd fel hyn, yn bytiog rhwng prydu, a minnau heb ddim byd am fy nhraed.

Casia Wiliam



SPAR

Jerry Williams a'i Feibion

GROSER a SWYDDFA BOST

CLOTH HALL LLANBOIDY

Ffôn: 01994 448364 / 448221

Adeiladwyr DORIAN PHILLIPS

Crefftwyr o bob math yn y diwydiant adeiladu o hen i newydd

Arbennigwyr mewn ail wneud Capeli, Eglwysi ac Ysguborau

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendy-gwyn, Sir Gar, SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 : Rhif Symudol 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU

Plymio - Addurno - Coed - Draeniad
Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwm
A Llawer Mwy!

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbuidingsupplies.co.uk

Dathliad Dydd Gŵyl Ddewi Canolfan Hywel Dda

Mae wedi bod yn arferiad ers rhai blynyddoedd bellach i Ganolfan Genedlaethol Hywel Dda i ddanfôn neges i Senedd Cymru ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Eleni yr oedd y trefniadau yn hollol wahanol am fod yn rhaid cyflwyno'r cyfan trwy gyfrwng y ŵe a Zoom.

Gwnaed y trefniadau ymarferol a thechnolegol gan y Cadeirydd Sue Allen, a disgyblion Blwyddyn 7 Ysgol Gyfun Dyffryn Taf, fu'n gyfrifol am baratoi a chyflwyno y neges gyfoes. Braf oedd cael croesawu Y Cyngorydd Ieuan Davies, Cadeirydd Cyngor Sir Gâr, Mr Julian Kennedy, Prifathro Ysgol Gyfun Dyffryn Taf, ynghyd ac aelodau a ffrindiau Y Ganolfan. Cadeiriwyd gan Elonwy Phillips, Is-Gadeirydd, a chyflwynwyd y neges Cymraeg gan Morgan Lewis, a'r fersiwn Saesneg gan Maddison Morris.

Dyma neges 2021

Rydyn ni, sy'n cynrychioli pobl ifanc Hendygywyn-ar-Daf, yn anfon ein cyfarchion at ein Senedd Genedlaethol yng Nghaerdydd ar Ddydd Gŵyl Dewi.

Cynlluniwyd Cofeb Hywel Dda gan yr artist Peter Lord o Aberystwyth, ac mae'n cynnwys gerddi a chanolfan wybodaeth. Bwriad Peter Lord oedd darparu amgylchfyd tawel a myfyriol ar gyfer archwilio "Cyfraith Hywel". Mae'r ganolfan hefyd yn cynnig lle i'r gymuned gael cwrdd i ddathlu hanes a diwylliant ein gwlad.

Heddiw, gofynnwn i chi fyfyrto ar ein gobeithion ni am ein dyfodol.

Rhannwn eich gobeithion am 2020 lle bydd yr iaith Gymraeg yn gryf, bydd nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn, bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd a bydd pawb yn parchu ein hiaith, hanes a'n ffordd o fyw.

Rhaid defnyddio iaith o ddydd i ddydd os yw i ffynnu a hoffem weld yr iaith yn cael ei defnyddio i'n huno ni fel cymuned yma yn Hendygywyn ac yng Nghymru gyfan. Mae'r ffaith y bydd un o bob pedwar ohonom yn dioddef problem iechyd meddwl eleni yn ein brawychu ond os gwnawn y "pethau bychain", fel y gwnaeth Dewi Sant ei hun, gallwn ymdrech i leddfu poenau a gofidiau ffrindiau, cydweithwyr a chymdogaion. Rhaid sicrhau amser i siarad ac amser i wrando. Gadewch i ni ddefnyddio'n hiaith i ddod at ein gilydd, i estyn llaw ac i greu cymuned lle "Gallwn. Gofalwn".

Hefyd derbyniodd Mr Haydn Lewis, Llywydd Anrhydeddus Y Ganolfan, rodd o ddarn arian arbennig a gyflwynwyd gan David Walsh Gibbon i'r Ganolfan. Mae'r darn arian yn gopi o'r darn arian o gyfnod Hywel Dda sydd yn yr Amgueddfa Brydeinig. Wrth ddiolch am y rhodd hael, dymunwyd yn dda i David Walsh Gibbon am adferiad iechyd buan. Bydd y darn arian yn cael ei arddangos yn Y Ganolfan, ac yn ychwanegiad cyffrous i'r casgliad.

Elonwy Phillips



Cadeirydd Cyngor Sir Gâr,
Cyng. Ieuan Davies



Maddison Morris



Morgan Lewis

TAF AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7 -12.00

**MASNACHWYR
ADEILADU**

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

Robert W. R. Morgan

ECA CYMERADWYEDIG GAN
NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygywyn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

ARWYDDION A DYLUION

BOOMERANG
SIGN & DESIGN

01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk

UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

Mrs Doris Rogers

Clare House, Heol y Gogledd, Hendygywn.
Bu farw 26 Rhagfyr 2020, ychydig cyn
ei bod yn 95 oed.



Magwyd Doris yn Eithinmaen, Clunderwen cyn symud i Hendygywn pan briododd ag Euros a byw yno am saith deg mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu'n gweithio fel glanhawr ym Manc Lloyds, gofalwr Ysgol

Gynradd Hendygywn a hefyd fel Ffitiwr Cymorth Llawfeddygol i Spencer.

Yn uchel ei pharch yn y gymuned, roedd hi'n ymwneud â llawer o sefydliadau lleol gan gynnwys Sefydliad y Merched, yr Henoed a'r Clwb Nofio dros 55 oed. Roedd hi'n ffrind i bawb a bob amser yn barod i helpu eraill.

Mae'r teulu'n cydnabod y cardiau a'r rhoddion niferus a gafwyd gan deulu, ffrindiau a chymdogion. Mae'r swm o £775 wedi'i roi i Cancer Research UK.

Cylch Meithrin Hywel Dda

Plant y Cylch yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi



Diwrnod y Llyfr



Plant y Cylch wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad

Ar ddiwedd tymor bydd Carys, Cai, Pak Lam, Evan, Ngarimu a Betti-Ane yn dweud hwyl fawr i'w ffrindiau yn y Cylch Meithrin. Dymuniadau gorau a phob lwc i chi gyd yn Ysgol Llys Hywel ar ôl y Pasg. Mwynhewch!

Enillwyr Clwb Cant Hywel Dda

Mae George Bancroft ac aelodau eraill Cymdeithas Genedlaethol Hywel Dda yn dal i gyfarfod yn ffyddlon ar Zoom unwaith bob mis i dynnu rhifau lwcus y Clwb Cant. Felly, dyma enwau'r enillwyr a dynnwyd ar Chwefror 12fed:

1af. Bill Johnson £50.

2ail. Lloyd James £40.

3ydd. Anne Marie Jenkins £30.

4ydd. Phoebe Nicholas £20.

Enillwyr Mawrth 9fed.:

1af. Cerrys Rees £50.

2ail. Lynne a Eleri Lewis £40.

3ydd. Anne Taylor £30.

4ydd. Nest a Dafydd Williams £20.

Pob lwc i aelodau'r Clwb Cant ym misoedd Ebrill a Mai!

RHYDYCEISIAID

Cydymdeimlwn ag Eifion ac Eifiona Lewis a'r teulu, Llys Coed ar farwolaeth cyfnither i Elfed, ychydig amser yn ôl, sef Mrs Menna Elias, Caerfyrddin (Menna Morris, Brynamlwg gynt).

....hefyd â Trefor Griffiths, Llanbariets, Ronnie a Mair Morgan a'r teulu. Picadilly, Llanboidy, Eifion a Violet ar farwolaeth cyfnither ychydig amser yn ôl, sef Mrs. Selina Gosnold o San Cler.

....hefyd â Mrs. Marlene Lewis a'r teulu, Hafan Glyd ar

GWASANAETH CEIR HENDYGYWN

Canolfan
atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts a.y.y.b

Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r
Ffynnon, Hendygywn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

SIOP SIAN CRYMYCH



Crefftau Cymreig

Gemwaith Rhiannon

Crisial Brenhinol Cymru

Crefftau Lleol

Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau

Crymych, SA41 3QF

FFôn: 01239 831230

⚠ GAREJ WYN CYF ⚠

Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG

MOT

Gwasanaeth • Atgyweirio
Teiars • Batris

Ffôn: 01239 831300

Ffacs: 01239 831853

farwolaeth perthynas, sef Mr. Dewi Rees, Llanboidy.hefyd â Ronnie a Mair Morgan a'r teulu ar golli mab yng nghyfraith, sef Mr. Victor Pearce, Caerfyrddin, ac a Trefor, Eifion a Violet Griffiths o golli eu nai yng nghyfraith.

Penblwydd. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i un o aelodau'r capel, sef Dewi Griffiths San Cler (Dewi Sarnewydd gynt) ar ddathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Chwefror 16eg.

.....hefyd i Hywel Morris, Golygfan ar ddathlu ei benblwydd yn 70 oed ar Fawrth 11eg.

Llongyfarchiadau i Dewi Griffiths am seiclo 5 milltir a chasglu arian mawr i'r Gwasanaeth Iechyd. Tipyn o gamp ac yntau'n 90 oed. Bu ar y rhaglen 'Heno'. Da iawn, Dewi!

Gwellhad buan i un o ffyddloniaid y capel sef Neville Griffiths ar ôl iddo gael llawdriniaeth yn ysbyty Treforys yn ddiweddar.

LLANGLYDWEN

Bu Elfed Owen, Lan yn dathlu ei benblwydd arbennig yn 60 yn ystod mis Chwefror a'i chwaer Mary Evans, Cnwc y Rhiw yn 70 ddiwedd Ionawr. Dymunwn yn dda i'r ddau ac mae'n siwr y bydd cyfle i ddathlu yn iawn yn y dyfodol.

Penblwydd Hapus yn 80 oed



Penblwydd hapus a'n dymuniadau gorau hefyd i Brython Phillips, gynt o Trevilla a fu'n dathlu ei benblwydd yn 80 ym mis Chwefror. Daw'r cyfarchion wrth Eleri, Eirian, Donna, Enfys a'u teuluoedd a'r trigolion yma yn Llanglydwen.

Er Cof am Tony Davies (Tony 'Pretoria')

Blin iawn yw nodi marwolaeth, Tony Davies, Crundale, Hwlfordd ar 27ain Ionawr 2021, ar ôl cystudd hir o salwch.

Ganwyd ef a'i frawd Tim yn feibion i T.Parker (Pac) a Mary Davies, Pretoria Stores, Llanglydwen, oedd yn cynnal busnes bwydydd ac offer amaethyddiaeth, busnes a brynwyd yn ddiweddarach gan Clynderwen Farmers (Co-op). Cafodd Tony, neu Tony 'Pretoria' fel yr adnabyddir ef yn yr ardal, ei addysg cynnar yn Ysgol Glandwr ac Ysgol Ramadeg Hendygywyn, pan oedd tren y Cardi Bach yn ei ogoniant ac yn fodd cludiant i'r ysgol.

Ar ôl cyfnod gorfodol gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol (National Service) yn y fyddin yn Malaya, bu'n gwasanaethu yn y byd addysg gyda Adran Addysg Cyngor Sir Penfro, lle bu'n gymorth, diffuant, proffesiynol a gwerthfawr i athrawon a phrif athrawon yn eu ddyletswyddau, am gyfnod hir.

Bu'n aelod cydwbybodol o Glwb Rotary Hwlfordd ac hefyd aelod a Cadeirydd ffyddlon Cyngor Cymuned Rudbaxton ynghlwm â nifer o ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill.

Prif ddiddordeb Tony oedd y bel hirgron a'r gêm rygbi. Bu'n chwaraewr medrus a fyddlon gyda Clwb Rygbi Arberth, fel bachwr, yn y rheng flaen, am gyfnod hir. Roedd yn uchel ei barch gyda chwaraewyr, cefnogwyr Clwb Rygbi Arberth ac yn wir yn gyffredinol trwy'r byd rygbi. Fel chwaraewr bu'n gapten Clwb Rygbi Arberth ac wedyn gwasanaethodd ar bwyllgorau'r Clwb am flynyddoedd.

Gwerthfawrogwyd ei wasanaeth fel chwaraewr a'i ymroddiad ar y pwyllgorau pan gafodd ei anrhydeddu, fel Llywydd y Clwb.

Fe gynrychiolodd Dîm Rygbi Sir Benfro yn rheolaidd yn ei yrfa rygbi. Hefyd, cafodd gyfle i fwynhau teithiau'r Llewod Prydeinig i Dde Affrig ac Awstralia gyda'i wraig June a ffrindiau.

Fe welir eisiau Tony fel ffrind a chyfaill ffyddlon, teyrngar, diymhongar a dibynadwy.

Estyynnir ein cydymdeimlad dwys gyda'i wraig June a'r merched Sharon a Fiona a'r teulu i gyd yn eu colled, hiraeth a galar.

Gwynedd Talfryn James

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, PVC
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Robert James
Efailwen, Clunderwen
01994 419735
Ar agor am frecwast, cinio, te a swper.
Ystafell ychwanegol i eistedd 70
ar gyfer bob achlysur.

WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

LLANDYSILIO

Penblwydd

Penblwydd hapus i Anne Marie Walker ar ddathlu penblwydd arbennig yn 60 oed ar 3ydd o Chwefror. Hefyd i Denise Davies a fydd yn dathlu ei 60 ar 4ydd o Ebrill.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Hywel Llewellyn (Maesyllan gynt) ar farwolaeth ei chwaer Bronwen Davies o Aberteifi. Hefyd ar golli ei chwaer yng nghyfraith sef Grace Llewellyn Glancledau, gwraig Will Llewellyn, mam annwyl Chris Llewellyn a Judith Luke Maesy Bryn, Llandysilio, a mamgu gariadus i Georgina a Robert.

Symud Cartref

Dymuniadau da i Huw, Bethan, William a Lleucu Lloyd yn eu cartref newydd.

...hefyd i Ian, Sandra a Rhys Eynon yn symud i Hwlfordd.

Llongyfarchiadau i Catrin Jones a Tom wrth brynu eu cartref cyntaf a hefyd i Ben Pridmore a Molly yn eu cartref cyntaf.

Eraill



Llongyfarchiadau mawr i Iwan Llewellyn ar gwblhau eu hyfforddiant Comando Morol Brenhinol. Mae Iwan wedi pasio allan yn ddiweddar yn RMCTC Lympstone. Mae ei rieni Chris ac Anne-Marie yn hynod o falch ar ei gyflawniad ac yn dymuno pob llwyddiant yn ei yrfa yn y dyfodol.

Pwyllgor Neuadd

Diolch yn fawr i Mark Jones am wneud arwydd ar gyfer

y Diffibriliwr, sydd tu allan i'r Neuadd. Nodwch mae rhaid ffonio 999 er mwyn cael y rhif i'w agor.



Mae Pwyllgor y Neuadd yn cwrdd ar yr ail Nos Lun o bob Mis. (ar Zoom ar hyn o bryd). Mae croeso cynnes i unrhyw un o'r Pentref i ymuno â ni. Os oes diddordeb gennych cysylltwch â Haulwn Pridmore, Delyth Roblin neu unrhyw aelod arall. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 12fed am 7.30yh.

Stori: Un Feirws- un Teulu gan Dyfrig Davies

Rhyw flwyddyn yn ôl daeth geirfa ddieithr i'r parthe 'ma - COVID-19 a Coronavirus. Beth oedd eu hystyr? Gydag amser, drwy'r cyfryngau, daeth gwybodaeth - feirws oedd yn ymosod ar yr ysgyfaint gan atal y broses o anadlu ac â allai arwain yn aml at dranc y dioddefwr, heb ystyried oed na iechyd. Ie! Rhywbeth dieithr oedd hwn na allai effeithio arnom ni yng Ngorllewin Cymru. Rydym ni yn ddiogel. Ond na! Dyma ddatgan eto ar y cyfryngau fod y feirws wedi crwydro i ardaloedd fel Rhondda Cynon Taf ac yn agosach fyth i Benybont ar Ogwr. Dyma oleuadau glas yr ambiwlans yn dechrau fflachio a nifer o drigolion yn gorfod ymweld ag ysbytai. Symptomau'r feirws - gwres uchel, peswch, blinder a colli blas ac arogl ein bwyd a'r cynghorion cenedlaethol i wisgo mygydau, golchi dwylon gyson, cadw pellter o ddwy fetr wrth ein gilydd ac aros i mewn yn ein cartrefi - dim crwydro'n ddiangen.

Brian John ROSE GARAGE
Cwmfelin Mynach
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn / Ffacs: 01994 448426

* Gwaith weldio o safon uchel
** Gwasanaeth ac atgyweirio ar bob math o gerbyd

EVAN REES (DYFED) CYF.

ER

WYAU MENYN A CHAWS

Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230511

Diolch i bawb am eich cefnogaeth

DENNIS JONES A'I DEULU

SAER COED PEINTIWR AC ADDURNWR TREFNWR ANGLADDAU

Maesawelon Efailwen
Ffôn: 01994 419561
Symudol: 07817 650858

Dyma'r ffrwydriad. Beth fyddai'r effaith arnom ni fel unigolion a theuluoedd?

Bu'n teulu ni dan y lach gyda pedwar ohonom yn gyflogedig gan y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol (yr NHS) ac yn ymweld â wardiau'r gwahanol ysbytai'n feunyddiol. Roeddent ar flaen y gâd yn wynebu arthiaith y feirws. Nid oedd dihangfa ac fe gafodd y feirws afael yn y pedwar, tri ohonynt adref ac yn dioddef ar yr un pryd. Yn nodweddiadol bu blinder llethol, gwynegon poenus, chwysu a pheswch na ellid ei reoli. Felly y bu dioddef y pedwar am ryw bythefnos.

Roedd sefyllfa'r pedwerydd yn hollol wahanol. Roedd e'n nyrsio'n llawn amser ar ward cancr mewn ysbyty yn ardal Abertawe. Gyda'r pendemig yn ei anterth sefydlwyd ward benodol ar gyfer y COVID-19 yn yr ysbyty. Cafodd ei drosglwyddo ag yntau yn ei ugeiniau cynnar i'r ward arbenigol. Adeiladwyd tîm o feddygon a nyrsys i gynorthwyo'r cleifion truenus. Profiadau enbyd gafwyd - aelodau o'r tîm yn marw o dan effaith y feirws, cleifion yn marw wrth ddal yn llaw y nyrs, yr unig un oedd ar gael wrth ffarfelio â'r byd hwn, gorfod cynnal aelodau o deuluoedd oedd â'u hanwyliaid wedi darfod. Gweithio oriau hir, i fyny at 12 awr ar y ward, mynd heb fwyd ac, ar adegau, anawsterau gyda'i wisg arbenigol. Dioddefodd yntau ymosodiad y feirws a bu'n rhaid iddo ynysu am gyfnod mewn unigrywdd torcalonnus.

Rhai engreiffitiau calonogol - derbyn sawl tedi [teddy bears] i roi hwb i'r staff a'r cleifion i gael iddynt chwerthin, a nifer o bobl oedd yn gwerthfawrogi ymroddiad y staff yn cyflwyno danteithion moethus iddynt i'w cynorthwyo i fedru cynnal y sialensau enbyd.

Ar ddiwedd cyfnod cyntaf y pandemig nid oedd angen y ward benodol a dychwelodd aelod y teulu i ward y cancr ac yno y mae'n gwasanaethu bellach.

Roedd un aelod arall o'r teulu wedi cychwyn ei gyfnod mewn Prifysgol ac yn lletya mewn Neuadd Breswyl. Deuddydd fu ei arhosiad gan iddo yntau ddioddef o'r feirws. Ynysu fu'r canlyniad gan ei garcharu yn ei ystafell am ddeg diwrnod. Cnoc ar y drws - "Mae eich bwyd tu fas i'r drws". Dyna fel y bu. Gorfod ymladd y feirws ar ei ben ei hun. Bu'n rhaid i'r tad a'r fam weithio adref, a'r ferch hithau gan fod yr ysgol ar gau.

Beth am yr effaith cyffredinol ar y teulu - Datcu a Mamgu, Dad a Mam, Brodyr a Chwiorydd?

Gwasgfa enbyd ar ofidiau am "ddiogelwch" yr aelodau ar flaen y gâd.

Colli'r agosatrwydd wrth yr holl ynysu - ydy'r teulu yn mynd i chwalu?

Dim cael cyfle i roi "cwtshad".

Gofidio am eu cynhaliaeth o dan yr amodau enbyd.

Y teimlad o fod mewn carchar neu o dan amod cyfreithiol i beidio rhyngweithio fel teulu.

Gorddibyniaeth ar aelodau o'r teulu sydd mewn cyfyng

gyngor beth bynnag.

Troi at resymau pam fod y feirws yn cael sut afael ar aelodau cariadus o'r teulu (neu unrhyw deulu sy'n dioddef) a meithrin y teimlad mai'r rheswm yw nad yw nifer enfawr o'n cyd-drigolion yn gweithredu'r cynghorion - heb wisgo mygydau, heb gadw at y rheolau pellter, pwy sydd i ddod i mewn i'r tŷ ac yn bennaf oll yr anwybyddu llwyr i'r gorchymyn i aros gartre wrth weld yr holl deithio di-angen.

Un effaith diddorol iawn all ennyn drwg neu dda yw'r newid ar rôl aelodau'r teulu :

Datcu a Mamgu oedd pencadfridogion y teuluoedd (o leiaf yn eu tybiant hwy). Bellach nid hwy yw'r penaethiaid gan eu bod yn garcharorion yn eu temlau eu hunain. Y plant neu'r wyrion sydd bellach yn rheoli. Heb y rhain, heb fwyd na phapur dydd Sul !!

Feirws mileinig sydd yn dal yn ei anterth. Angen ffydd a gobaith. I fi fe fydd COVID yn troi i COF-I-D Cof i dragwyddoldeb. Gobeithio y bydd y teulu ar gael i gofio o bell am COVID - 19.

Cylch Meithrin Llandysilio

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni fe wnaeth y plant wisgo lan yn y wisg traddodiadol, a cherdded drwy'r pentref.

Roedd pobl yn codi llaw a canu corn arnynt a wedyn, yn ôl i'r neuadd i gael bowlen o gawl. Roedd y plant wedi mwynhau yn fawr iawn.



Lluniau o'r plant yn eu gwisgoedd traddodiadol yng nghwmni Delyth ac Einir

Lleolir y Cylch yn Neuadd Llandysilio, bob bore Llun, Mawrth, Iau a Gwener. o 9.00yb tan canol dydd. Addysg Gymraeg i blant cyn ysgol o 2 - 4 oed. Am fwy o fanylion cysylltwch â Delyth Roblin ar 07882639867

Dathlu Gŵyl Dewi



Dyma lun o Ema Farnden a Osian Jones yn eu gwisgoedd Gŵyl Dewi. Wyres ac ŵyr Delyth a Michael Roblin, Glynty Farm. Mae Ema yn ferch i Nia Roblin a Robert Farnden ac yn byw ym Mwlchgyroes.

Mae Osian yn fab i Sioned a Llŷr Jones, Drefach Felindre.

Cennin Pedr

Mae 'Spring Field' o Manorbier yn tyfu Cennin Pedr yn y pentref ac mae ganddynt dau gae yn llawn o flodau. Yn y misoedd nesaf fe welwch wahanol fathau o Gennin Pedr. Maent yn blodeuo o fis Rhagfyr hyd at fis Ebrill a maent yn casglu wahanol fathau dros bythefnos a mae'n rhaid casglu cyn eu bod yn agor a'u torri yr un hyd er mwyn eu cadw yn ffres yn hirach. Maent yn gwerthu'r blodau yn Farchnad Gardd 'Green Acre' a siopau lleol. Maent hefyd yn tyfu gwahanol flodau yn y caeau. Yn yr haf mae ganddynt Flodau Haul a Sweet Williams, ac yn yr Hydref blwyddyn dwethaf Pwmpeni.

Maent yn cynnal diwrnodau 'pigo eich hun' lawr yn Llanteg i fynd gyda amser y flwyddyn. Llynedd roedd ganddynt system archebu oherwydd y Cofid fel bod ddim llawer o bobl yno yr un pryd.

Pedair cenhedlaeth



Mel, Rhys, Caio a Paul, pedair cenhedlaeth o deulu Jenkins. Llongyfarchiadau.

NEWYDDION BLAENCONIN

LLANW'R GWACTER

Nid yw drysau caeedig ein Capeli wedi llwyddo i rwystro awydd yr Eglwysi i gyhoeddi'r 'newyddion da' mewn 'llawer dull a llawer modd'.

Mae'r arlwy yn amrywio o Sul i Sul ac yn dangos dawn a dycnwch Cristnogion y fro.

Er gwaetha'r gwaharddiadau, fel Paul, 'Yng ngwasanaeth yr Efengyl hon yr wyf yn dioddef hyd at garchar, fel rhyw droseddwr, ond nid oes carchar i ddal gair Duw.' (2 Timotheus 2 : 9)

Yr ydym yn gwerthfawrogi'n fawr iawn yr ymdrech o blaid yr Efengyl a'r llwyddiant sydd yn dilyn. Mae darparu'r arlwy ysbrydol mewn cyfnod anodd wedi bod yn her ... er hynny, yr ydym wedi llwyddo i 'lanw'r gwacter drwy dy air'.

Diolchwn hefyd am yr Eglwysi hynny sydd wedi bod yn effro i'r anghenion corfforol a chymdeithasol.

Ynghanol y sŵn, diolch am y Cristnogion hynny sydd wedi llwyddo i 'wrando'r cwyn nas clyw y byd'.

Mae ein gwaith a'n gweinidogaeth yn parhau ac i barhau. Boed bendith ar BAWB sy'n cyflawni eu gweinidogaeth yn enw'r Arglwydd.

Y GROGLITH a'r PASG

Ar hyn o bryd, mae'n anodd trefnu Oedfaon gan ein bod yn dal heb wybod am gynnwys y canllawiau.

Byddwn yn cofio'r Groglith ac yn dathlu'r Pasg er gwaethaf yr anawsterau ond yn gorfod aros am ychydig cyn cadarnhau unrhyw Oedfa gyhoeddus.

EDRYCH YMLAEN

Fe ddaw'r gofid i ben ... ac fe ddaw'r amser inni ddod ynghyd unwaith eto i addoli a chanu mawl. Byddwn yn gwneud hynny yn ein Capeli ein hunain wrth gwrs a mawr yw'r edrych ymlaen ond ... beth am ddechrau ystyried cynnal Oedfa neu Oedfaon o Fawl ar hyd y fro i ddangos i'n gilydd ... ac i ddangos i'r byd ein bod ... 'YMA o HYD !' Cyfle i gyd-addoli ac, efallai, i annog ein Beirdd a'n Cerdorion i gyfrannu Emyn ac Alaw a Cherdd ?

LLANGYNIN

Cartref Newydd

Pob dymuniad da i Margaret Rees, sydd wedi gadael Gwynfa erbyn hyn a symud i fyw ym mhentref Sanclêr. Dymunwn bob hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd : Bronllys, Rhyd-y-Gors, Sancler.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhodri a Marian Glyn Thomas, Llanddwyn, ar enedigaeth wyres fach newydd, merch i Deian a Sophie, a chwaer fach i Rhodri a Rhys, Bryste.

Gwellhad Buan

Ar ddechrau mis Ionawr treuliodd Elin Jones, Ger y Bryn, ychydig o ddyddiau yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Glangwili yn dilyn llawdriniaeth i dynnu ei phendics. Hoffai Elin ddiolch o waelod calon i holl staff a gofalywyr y ddau ysbyty, ond yn enwedig staff ward Derwen, Glangwili, am eu gofal arbennig yn ystod y cyfnod hwn, a hoffai ddiolch i bawb hefyd am eu dymuniadau gorau.

Mae nifer o drigolion Llangynin wedi bod yn anhwylyd yn ystod y mis. Dau y bu'n rhaid iddynt dreulio ychydig o amser yn yr ysbyty oedd Ann Morris, Golygfan, a Neil Edwards, Pleasant View. Dymuniadau gorau am wellhad buan iddynt i gyd.

Cydymdeimlad

Unwaith eto'r mis hwn mae'n rhaid cydymdeimlo â nifer o deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Glyndwr Davies, Llys Meini, ar farwolaeth ei frawd, Dyfrig Davies o Bedlwyncoch, Crai, Aberhonddu. Cofiw'n am Glyndwr, sydd yng Nghartref Gofal Preswyl y Garreg Lwyd yn Sanclêr ar hyn o bryd, a'r teulu oll yn eu colled.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Llys-y-Gwynt ar farwolaeth chwaer hynaf y diweddar Brian Nelson, sef Jean Oliver o Crosshands.

Cofiw'n am Sandra ac Alun Davies, Erw Ddôl, a'r teulu, sydd wedi colli chwaer yng nghyfraith, sef Bronwen James o Drelech.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â Llinos a Michael Morris, Blaenffynhonnau, ar farwolaeth modryb Llinos, sef Janet Davies o Lanpumsaint.

Penblwyddi arbennig mis Ionawr, Chwefror a Mawrth

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r canlynol a fu'n dathlu eu penblwyddi yn ystod y Cyfnod Clo:

Janet Jones, Trem-y-Cwm, a oedd yn 60 oed ar Ionawr 22ain.

Gary Owen, 6 Llyscoed, yn 90 oed ar Chwefror 27ain.

Llinos Morris, Blaenffynhonnau, yn 65 oed ar Fawrth 3ydd.

Roy Reynolds, Tymore, yn 87 oed ar Fawrth 11eg.

Granville Davies, Angorfa, yn 89 oed ar Fawrth 23ain.

Pen blwydd hapus iawn i bob un ohonynt.

Diolch

Ar ôl llawer o flynyddoedd mae Gwennie Rees, Cheerio wedi rhoi'r gorau i ddosbarthu'r Cardi Bach yn ardal Llangynin. Dymuna pwyllgor Y Cardi Bach ddiolch o galon i Gwennie am eu gwasanaeth dros y cyfnod gan ddymuno iddi gael iechyd i'r dyfodol.

Mae Rhian White, Garnwen wedi gwirfoddoli i gymeryd at y gwaith felly cysylltwch â Rhian os am gopi. Diolch yn fawr iddi.

Dathlu Gŵyl Dewi



Dyma Taliesin ac Elspeth Scott Robinson yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Aberdeen. Maent yn blant i Siriol (Garnwen, Llangynin gynt) a Jamie. Maent yn falch iawn o'u Cymreictod yn bell lan yn Yr Alban!



Dyma Cai Alexander Booth yn edrych yn falch iawn o gael gwisgo'i grys Cymru ar Ddydd Gŵyl Dewi. Mae Cai yn fab i Nia (Garnwen, Llangynin gynt) a Steve, o Benfro.

CWMBACH

Diolch

Dymuna Ann Davies, Fronuchaf ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, blodau, cacennau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Bu'r cardiau, blodau ac anrhegion yn gysur mawr i mi, ac mae'r ddau ohonom wedi mwynhau prydau bwyd a ddarparwyd gan bobl ar ein cyfer. Hefyd i gymdogion Llangynin a fu'n garedig iawn i mi yn ystod fy arhosiad yn Llysmeini. Gwerthfawrogi popeth. Bendith i bawb.

Penblwydd Hapus yn 40 oed



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Bethan Hughes-Gage, Tŷ Croes, Cwmbach a fydd yn dathlu ei phenblwydd arbennig ar 22ain Ebrill. Pob hwyl yn dy gartref newydd yng Nghaerfyrddin. Oddi wrth merched Cwmbach.

Clwb Ffermwyr Ifanc Penybont ar ddechrau 2021

5,000km o gerdded, seiclo a rhedeg wedi'i gyflawni gan aelodau, arweinyddion a ffrindiau CFFI Penybont. Efallai eich bod wedi clywed am her ddiweddaraf CFFI Penybont, Move for Mind, sef 30 diwrnod o gerdded, seiclo a beicio 100km yr un. Fe hedfanodd y 30 diwrnod ac fe aethon ni oll allan ym mhob tywydd - gwynt, glaw, cesair, eira, peth haul ond yr un neges glir â drechodd bopeth

arall - ymrwymiad llawn gan bob un ohonom! Er ein bod ni ar wahân, bu'r her yma'n fodd i ni fod gyda'n gilydd. 3,000km oedd y targed gwreiddiol sef o Benybont i Milan ac yn ôl ond 30 diwrnod yn ddiweddarach ac fe wnaethom gyrraedd Helsinki a nôl i Benybont, sef 5,000km! Does dim amheuaeth bod ein traed bach a'n coesau wedi blino, ond mae pawb yn falch iawn o'r hyn a gyflawnwyd tuag at elusen mor bwysig. Ond mae'n diolch ni'n fawr iawn i bob un a'n cefnogodd ar y daith wrth inni godi bron i £3,500 i elusen iechyd meddwl Mind, fel y gallwch ei weld ar dudalen Go Fund Me CFFI Penybont ar y we. Rydym wirioneddol yn gwerthfawrogi haelioni pob un ac rydym oll mor ddiolchgar am y fath gefnogaeth. Yn sicr, mae blwyddyn CFFI Penybont wedi bod yn un dra wahanol, ond mae'n amlwg nad yw hynny wedi amharu dim ar gefnogaeth ddifffuant y gymuned, sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr iawn.

Yn dilyn yr Her Move for Mind, nesaf ar ein agenda roedd Eisteddfod Rithiol CFFI Sir Gâr. Bu'n llwyddiant mawr i ni fel clwb, wrth inni ennill y darian gwaith cartef a'r darian cystadlaethau llwyfan. Rydym yn hynod falch dros yr holl aelodau, hyfforddwyr a phob un a fu ynghlwm â'r cystadlu. A dyma'r aelodau a ddaeth i'r brig

Llwyfan:

Llefaru 27 neu iau - 1af Fiona Phillips, 2il Hannah Richards a 3ydd Daniel O'Callaghan.

Llefaru 19 neu iau - 2il Olwen Roberts.

Unawd 27 neu iau - 1af Hannah Richards a 3ydd Daniel O'Callaghan.

Unawd 19 neu iau - 3ydd Celyn Richards.

Unawd offerynol 27 neu iau - 1af Daniel O'Callaghan.

Canu Emyrn 27 neu iau - 2il Celyn Richards.

Ensemble Lleisiol 27 neu iau - 1af CFFI Penybont.

Stori A Meim 27 neu iau - 2il Marek Evans a Carwyn Jones.

Fidio cerddoriaeth 27 neu iau - 2il CFFI Penybont.

Stand yp 27 neu iau - 1af Llew Pryce.

Gwaith Cartref:

Eich blwyddyn COVID-19, 27 neu iau - 2il Hannah Richards.

Limrig 27 neu iau - 1af Marek Evans a 3ydd Fiona Phillips.

Cystadleuaeth 17 neu iau, Llundio Cwis - 1af Cao Pryce.

**Cwmni Adeiladu
BURNS
Building Co**

Arbenigwyr mewn gwaith
GWYDR FFEIBR

Cysylltwch a ni os am greu neu atgyweirio
TO GWASTAD neu HAFAN

Ffon: 01834 860686


Rob a Liz Burns
Greenwood
Cold Blow
Arberth

**LAMO'S
MOTORCYCLES**



Dyma'r lle i feicmodurwyr
The Showroom
Llandissilio

Gwerthiant • Gwasanaeth • Atgyweirio
Ffôn / Ffacs: 01437 563678

WYN DAVIES a'i FRODYR

ADEILADWYR

Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf

Ffôn: 01437 563300



Y Gadair : Cyfansoddi Cerdd 27 neu iau – 2il Daniel O'Callaghan.

Llongyfarchiadau anferthol i bob un a wnaeth gystadlu yn yr Eisteddfod Rithiol

Cystadlaethau'r Siarad Cyhoeddus fydd nesaf - tri mis bach digon prysur i CFfi Penybont!

Ry'n ni oll yn gobeithio y cawn ddychwelyd at fywyd normal yn fuan iawn, a gweld ein teulu a'n ffrindiau. Mae'r brechlyn yn rhoi gobaith i ni i gyd a gobeithiwn eich gweld chi i gyd yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser, arhoswch yn ddiogel, a chofiwch gysylltu os gallwn fod o gymorth mewn unrhyw ffordd.

Fiona Phillips,
Cadeirydd, CFfi Penybont

Cefin y Postmon yn codi arian i elusen 'MIND CYMRU'



Dyma Postmon Efailwen a Mynachlog Ddu, Cefin Vaughan gyda'i ferch Megan Liwsi, yn cyflwyno sic yn rhithiol i Lucy Lloyd o elusen Mind Cymru.

Codwyd £2970 i'r elusen o ganlyniad i Cefin wisgo amrywiaeth o ddillad ffansi tra wrth ei waith yn ystod cyfnod clo Haf 2020. Awgrymwyd, gan fod ganddo ddeuddeg gwisg y dylai greu calendr i ddangos y dillad a dyna wnaeth. Noddwyd y calendr gan Y Post Brenhinol, Rob Caffi Beca a Carwyn Siop Glandy Cross. Argraffwyd a dyluniwyd y calendr gan 'Pro Print', Caerfyrddin.

Mae Cefin yn diolch i bawb a gefnogodd drwy brynu calendr.

Ble mae Watson Jones?

Y mis hwn mae'n braf cael croesawu'r cyntaf o gyfres o ddarluniau gan yr artist lleol Guy Manning. Mae pob un o'r darluniau wedi'i seilio ar anturiaethau ei gi, "daeargi byrgoes â chot arw o flew tywyll" o'r enw 'Watson Jones'.


Ar ben hynny mae 'Watson Jones' yn digwydd bod yn gymeriad poblogaidd ar-lein ac yn ddiweddar mae wedi bod yn ymddangos ym mlog arlunio Guy ac ar ei dudalennau Instagram a Facebook hefyd.

"Mae'r darluniau yn rhai syml ac annwyl, does dim byd o gwbl yn digwydd ynddyn nhw ond mae pob un (gobeithio) yn cyfleu rhyw gyfeillgarwch tyner," ebe Guy, sy'n rhedeg yr 'Art Room' yn Upper Frog Street, Dinbych-y-pysgod.

"Mae'n nhw'n dechrau denu cryn dipyn o ddilynwyr a chyn bo hir bydda i'n ystyried cyhoeddi cyfrol ohonyn nhw. Mae Watson Jones a finnau wrthi yn dysgu Cymraeg (yn araf iawn!) felly efallai bydda i'n gallu cyhoeddi cyfrol Gymraeg hefyd.

Wrth gwrs bydd codi ei broffil lleol yn hwb mawr i ego Watson Jones, ond efallai bydd darlun bach syml gydag ychydig o apêl lleol iddo yn gysur yn yr amseroedd heriol hyn."

Susan Phillips



MASON BROS

GWASANAETH GWERTHU
PEIRIANNAU NEWYDD AC AIL-LAW

THE NORTON YARD,
LAMPETER VELFREY,
NARBERTH

Ffôn: 01834 831653 / 831553

Davies

Gwasanaeth Garddio

Tirlunio
Clirio
Torri Porfa
Plannu a chynnal Gerddi LLysiau
(Yswiriant llawn)

Ffoniwch Martyn ar : 07854 764101
01437 563132

Dolwen, Efailwen,
Clunderwen, SA66 7PL

MASNACHWYR ADEILADU DAVIES

Cyflenwyr Adeildu a D.I.Y.
Arddangosfa Ceginau
ac Ystafelloedd Ymolchi
ar agor



Heol yr Orsaf
Hendygywyn

Ffôn:
01994 240228



YSGOL GRIFFITH JONES

Dechrau nôl

Ar ôl yr hanner tymor fe groesawyd plant y Cyfnod Sylfaen yn ôl i'r ysgol ar ôl chwech wythnos o ddysgu adref. Hyfryd oedd gweld pawb yn dychwelyd ac yn ymgartrefi mor gyflym. Croeso mawr i'r 12 o blant Meithrin newydd sydd wedi dechrau am y tro cyntaf yn ogystal â 4 o blant newydd ar draws yr ysgol. Mae'r hwb gofal i weithwyr allweddol yn dal ar agor ar gyfer plant yr Adran Iau.

Ysgolion Actif Cymru

Er bod y mwyafrif o'r disgyblion yn gweithio o adref, fe ymrwymodd yr ysgol i ymgyrch Actif Sir Gâr sef ymgyrch i drïo cael plant y Sir i gyflawni miliwn o funudau actif. Mae pob plentyn wedi derbyn log ar gyfer cofnodi pob munud o weithgareddau corfforol er mwyn helpu'r ysgol i gyrraedd ei tharged o 70,000 o funudau actif.

Dathlu Cymru

Bu pob dosbarth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyffrous i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cafwyd sesiwn ddawnsio gwerin, creu cardiau a baneri Gŵyl Ddewi, llunio posterï am hanes Dewi, a dylunio gwisg Gymreig newydd a dylunio arfbais newydd i Gymru. Ymunodd plant yr hwb gyda Menter Sir Gâr i ganu'r anthem am hanner dydd.



Plant yr Hwb yn canu'r anthem

Masnach Deg

Bu disgyblion ar draws yr ysgol yn cymeryd rhan mewn gweithgareddau i gydnabod pythefnos Masnach Deg. Bu'r disgyblion sydd dal yn dysgu o adre yn cyflawni gweithgareddau rhifedd ar lein ac yn yr ysgol fe fu plant y Cyfnod Sylfaen yn brysyr yn mapio taith y fanana ar draws y byd.

Diwrnod y Llyfr

Ar Mawrth y 4ydd bu'r ysgol yn dathlu Diwrnod y Llyfr. Bu plant yr Adran Iau yn gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr er mwyn cymeryd rhan mewn sesiynau rhithiol gyda'u dosbarthiadau. Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn dathlu drwy ddarlunio ac ymateb yn ysgrifenedig i'w hoff lyfrau stori.



Dau o'r disgyblion wedi gwisgo fel eu hoff gymeriadau.

Dathlu Gŵyl Dewi



Disgyblion Dosbarth Beca yn creu Cenhinen Pedr

YSGOL BANCYFELIN

Croesawu disgyblion yn ôl

Roedd yn hyfryd cael croesawu disgyblion y Cyfnod Sylfaen i gyd yn ôl i'r ysgol ym mis Chwefror ac edrychwn ymlaen at weld CA2 yn dychwelyd ar Fawrth 15fed.

Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod y Llyfr

Bu'r disgyblion yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod y Llyfr. Roedd yn rhaid i Gyfnod Allweddol 2 wneud hyn yn ystod eu gwersi Teams drwy drafod eu hoff lyfrau, tra bod y Cyfnod Sylfaen yn medru dathlu yn yr ysgol drwy greu nod lyfrau ac actio rhannau o'u hoff lyfrau.



Dathlu Gŵyl Dewi



Cyfnod Allweddol 2 ar ddiwrnod y Llyfr



Cyfnod Sylfaen - Diwrnod y Llyfr



Cyfnod Sylfaen - Diwrnod y Llyfr



Actio rhan o lyfr

YSGOL MEIDRIM

Bu'r plant yn brysur yn creu calendrau ar gyfer ei gwyerth yn y gymuned yn ystod tymor y Nadolig. Diolch i bawb sydd wedi prynu calendr, fel Cyngor ysgol codwyd £400.00 tuag at y gronfa. Ar ran yr ysgol, diolch yn fawr iawn i chi gyd.

Oherwydd sefyllfa'r pandemig, rydym i gyd yn dysgu ar-lein. Er hyn, rydym yn brysur iawn gydag ein thema 'O bydded i'r hen iaith barhau.' Mae'r plant wedi bod yn creu cestyll ar gyfer Gwrtheyrn ar 'Minecraft' a rhai wedi creu allan o ddeunyddiau naturiol a chreadigol. Bu'r disgyblion yn ymarfer eu sgiliau llafar er mwyn rhoi taith ddigidol i ni o gwmpas y castell. Buom hefyd yn dathlu diwrnod Santes Dwynwen ar y 25ain o Ionawr, gyda'r disgyblion yn creu patrymau Celtaidd ac yn ymchwilio i Ynys Llanddwyn.

Dathlwyd hefyd Diwrnod Miwsig Cymraeg – bu'r plant yn brysur yn creu posteri rhyngweithiol ac yn datrys problemau mathemategol yn seiliedig ar albymau Dafydd Iwan.

Diolch i bawb yn ystod y cyfnod clo am eich caredigrwydd. Edrychwn ymlaen at yr 'haul ar fryn.'

YSGOL BECA

Nôl yn yr Ysgol

Rydym ar hyn o bryd yn byw mewn cyfnod tra gwanol ac roedd agor drysau'r Ysgol i blant y Cyfnod Sylfaen yn unig yn brofiad digon rhyfedd. Mae'r disgyblion ieuengaf oll yn hapus i fod nôl yn yr ysgol yng nghwmni ffrindiau ac yn fwrllwm i gyd wrth eu gwaith. Braf bydd gweld gweddill yr ysgol nôl ar y 15fed o Fawrth a'r ysgol fach yn llawn sŵn a chyffro.

Croesawu aelodau newydd

Mae pedwar aelod bach newydd wedi ymuno â dosbarth Carn Gyfrwy y tymor yma – Alex Smith, Letti Evans, Huw Bowen a Jack Phillips. Maent wedi ymgar-trefu a gwneud llu o ffrindiau newydd yn barod.

Staff

Estynnwn groeso cynnes i Miss Carys James athrawes newydd dosbarth 5 a 6. Mae dysgu ar lein, mewn swydd newydd heb adnabod yr un plentyn wedi bod yn brofiad digon rhyfedd iddi, ond mae wedi llwyddo i greu argraff ar y disgyblion ac mae'n awyddus iawn i gwrdd â hwy wyneb yn wyneb.

Mae'r un croeso yn cael ei estyn i Ifan Burge sydd yn cynorthwyo o fewn yr ysgol. Eto profiad digon gwahanol mae Ifan wedi derbyn hyd yma ond mae wedi bod yn allweddol wrth iddo gynnal hwb o fewn yr ysgol i blant gweithwyr allweddol yr ysgol.

Dydd Gwyl Dewi

Mae Mawrth 1af pob blwyddyn yn achlysur hapus i ni yng Nghymru, mae'n arwydd bod y Gwanwyn ar ddod ac yn rhoi diwrnod arbennig i ni fel Cymry i ddathlu ein Cymreictod, ac roedd eleni ddim yn eithriad i ni yn ysgol Beca. Gwisgodd y plant mewn gwisg draddodiadol ag eraill mewn coch a chawsom ddiwrnod o ddathlu. Cafodd plant Cyfnod Sylfaen barti Dydd Gŵyl Dewi, dawnsio gwerin yn yr awyr agored, a chynnal llu o weithgareddau amrywiol o fewn y dosbarth gan ddysgu llawer am Dewi ein Nawddsant. Cafodd plant Cyfnod Allweddol 2 gwis hwylus gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2 Bro Brynach yn dysgu am bob agwedd o fod yn Gymraes/Gymro ar ddydd Gŵyl Dewi. Dyma gyfle da i'r plant gyfarfod â'u cyfoedion ym Mro Brynach. Yn ogystal buodd y disgyblion yn brysur ysgrifennu cerddi am Gymru a Chymry ynghyd â choginio pice ar y maen.



Diwrnod y Llyfr

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr eleni ar Fawrth 5ed, ac fel rhan o'r dathlu gwisgodd y disgyblion lan fel eu hoff gymeriad. Yn ogystal daethant â'i hoff lyfr ganddynt i rannu gydag eraill. Yn cipio gwobr o £5 i brynu llyfr o'i ddewis oedd Lewis Roberts. Llongyfarchiadau iddo.



CJ Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com



Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James

J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross

SPAR

Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen amoch ar
unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul, 7y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard
San Clêr

Ffôn: (01994) 231390





Sesiwn diogelwch y we

Ar ddydd Mercher y 10fed o Fawrth yn ystod sesiynau byw Cyfnod Allweddol 2 cynhaliodd siaradwr gwadd Pwll Llywelyn sesiwn ar ddiogelwch y we gyda'r disgyblion. Trafodwyd sawl agwedd am bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we gyda'r disgyblion wedi mwynhau cynnal trafodaeth gyda PC Llywelyn.



Cynhaliwyd cystadleuaeth i'r ysgol gyfan lle gofynwyd i'r disgyblion i addurno ffenestr Gymreig er mwyn cefnogi Cymru ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad. Braff oedd gweld bod nifer o'r disgyblion wedi mynd ati i addurno ffenestri. Llongyfarchiadau mawr i Beca Llewellyn, Greta Williams, Mabli King, Harvey Carey, Barnaby Cutler, James Davies, Betsan Dent a Lucy Davies am ennill y gystadleuaeth.



Munudau Actif Sir Gâr

Buodd y disgyblion oll yn brysur yn cymryd rhan yn her Munudau Actif Sir Gâr. Roedd yn hyfryd gweld y disgyblion yn mynd ati i ddiffodd y sgrin ac yn mwynhau ymgymryd mewn amryw o weithgareddau corfforol megis cerdded, rhedeg, beicio, hwla-hwp a sgelfrolio. Da iawn chi blant!

Dydd Gŵyl Dewi



Disgyblion Bl. 1 a 2

Ar y 1af o Fawrth, mwynhauodd y plant wsgo yn eu gwisgoedd traddodiadol a chrysau rygbi i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Roedd holl ddisgyblion a staff yr Ysgol wedi llwyddo i gwblhau'r sialens Pasiwch Y Faner. Cynhaliwyd cwis Gymreig i ddisgyblion CA2 gyda Ysgol Beca.

YSGOL BRO BRYNACH

Cyfnod Clo

Mae disgyblion yr Ysgol wedi bod yn brysur tra'n dysgu o adref. Mae nhw wedi mwynhau dysgu am ein Byd Rhyfeddol, Santes Dwynwen, Masnach Deg, Dydd Gŵyl Dewi a'r Rhufeiniaid. Braff oedd gweld cymaint o ddisgyblion yn ymuno yn ein sesiynau byw ac yn mwynhau dysgu ac ymgymryd mewn gweithgareddau amrywiol. **Cystadleuaeth Y Chwe Gwlad**



Disgyblion Meithrin a Derbyn

Diwrnod y Llyfr

Mwynhauodd y plant wisgo i fyny fel cymeriad o'u hoff lyfr. Paratowyd llawer o weithgareddau iddynt yn cynnwys dyfalu'r broliant a chlawr a chreu llyfr nôd.



Disgyblion Bl. 1 a 2



Staff a Disgyblion Meithrin / Derbyn



Yn lle coginio y tro hwn, dyma rai o rinweddau 'Finegr' yn y gegin:-

1. Os bydd arogl yn y gegin ar ôl coginio, berwch gwpaned o ddŵr a llwy fwrdd o finegr mewn sospan.
2. Pan yn coginio blodfresych rhwch lwyaid o finegr gyda'r dŵr a halen – bydd yn cadw'n wyn, a mwy na hynny, lleihau arogl yr ystafell.
3. Er mwyn cael gwared marciau dŵr ar ddodrefn pren, cymysgwch ychydig o olew olewydd (olive oil) a finegr. Rhwch ar ddwster glân a rhwbiwch gyda'r graen a defnyddiwch ddwster arall i'w sgleinio.
4. I lanhau ia neu rhew o ffenest y car yn y bore – cymysgwch 3 mesur o finegr i 1 rhan o ddŵr. Rhwch mewn 'spray' a chwystrellwch ar y ffenest y noson cynt. Cadwch y 'spray' yn y car dros y gaeaf.
5. Os byddwch yn cael trafferth gyda 'sponge' i godi, rhwch llond llwy bwdin o finegr i'r gymysgedd cyn ei roi mewn tun.
6. Os byddwch yn meddwl bod darn o gig eidion gwydn gyda chi, rhwch llond llwy fwrdd o finegr drosto cyn ei goginio yn y ffwrn.
7. Os byddwch yn glanhau tatws ddiwrnod ymlaen, ychwanegwch ychydig o finegr i'r dŵr – er mwyn iddynt gadw'n wyn.
8. Er mwyn cadw blodau yn hirach, cymysgwch llond 2 lwy fwrdd o finegr gwyn a 2 lwy fwrdd o siwgr i'r dŵr yn y 'vase'.
9. Os am gael gwared o chwyn o ddrws y ffrynt, chwystrellwch neu arllwyswch 'Apple Cider Vinegar' arnynt – ac erbyn y bore wedyn byddant wedi diflannu.
10. I lanhau 'Venetian Blinds' defnyddiwch hen hosan neu faneg gotwm wedi ei rhoi mewn cymysgedd o finegr a dŵr twym nes ei bod yn llaith. Gwisgwch am eich llaw a glanhawch ddwy ochr y bleins ar yr un tro.
11. Mae finegr yn dda i gael gwared a staeniau o unrhyw beth yn y gegin.

OWEN PHILLIPS
Llanddewi EfelFre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G & S Llewellyn a'i Mab


Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clynderwen. SA66 7TX
Ffôn: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD Tŷ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol,
teuluol, lleol, Cymraeg
881630 www.trefigin.cymru 881282

COLOFN LLÊN

LLYFR. MEFUS YN Y GLAW

gan Mari Emlyn



Nofel ysgafn am y prif gymeriad (Lili) sy'n penderfynu mynd i fyw ar ben ei hun i Rhif 2, Penlon ond yn gofidio fod canol oed yn effeithio ar ei hiechyd. Mae ganddi obsesiwn am nifer o bethau – fel bod yn brydlon i bopeth a gwneud gwaith tŷ yn ôl yr un drefn o hyd. Mae ganddi ddosbarth Cylch Ysgrifennu i fynd iddo.

Ceir hanes ei chymdogion (4 tŷ

sydd yn stryd fach Penlon), yn enwedig y dyn drws nesaf sy'n anfonlon i neb sathru ar ei 'chippings' tu fas i'w dŷ. Newidiodd ei bywyd pan ddaeth tenant newydd i Rhif 4 (gwerthwr tai). Bu mor garedig â rhoi pot o fefus iddi yn anrheg, ar ddiwrnod glawog. Penderfynodd Lili fyw am ddiwrnod, yn ddi-gynllun.

Dyma nofel sy'n codi calon, sy'n sôn am gymeriad amrywiol pobl gan amlygu pŵer creadigrwydd a chyfeillgarwch.

Gwasg y Bwthyn £8.99

GŴYL DEWI

Tydi, O Dduw a beraist
Dy foliant ym mhob iaith,
Ac ym mhob gwlad a godaist
Broffwydi at dy waith;
Clyw foliant Gwlad y Bryniau
Ar dafod ac ar dant
Am anfon atom ninnau
Golomen Dewi Sant.

Trwy'n gwlad tramwyodd d'Ysbryd
O'i mynydd hyd y mor,
Disgleiria blodau'r gwynfyd
Yn llwybrau Saint yr Ior.
O luniwr glân yr eirlys
A chennin aur y pant,
Gwna di'n bywydau'n ddilys
Fel buchedd Dewi Sant.

Y pethau bychain hynny
A welsom ganddo ef,
O dyro ras i'w dysgu
Yn awr er Teyrnas Nef;
Rhag awel ber Glyn Rhosyn
Gwasgarer llid a chwant,
Nes uno'r wlad yn rhwymyn
Brawdoliaeth Dewi Sant.

Rhoist lamp y Gair i arwain
Ein gwlad trwy'r hirmos ddu;
Ar weddi'r saint bu d'adain
Tros fywyd Cymru fu;
O Arglwydd Dduw ein tadau
Bydd eto'n Dduw eu plant,
A chadw'n Cymru ninnau
Yn Gymru Dewi Sant.

Benny y Bws

gan deulu'r Masons.



Roeddem ni fel teulu eisiau cofnodi effaith y 'clo', felly gyda'n gilydd fe wnaethon ni greu llyfr stori i blant sy'n

bersonol i ni a'n busnes. Mae 'Benny the Bus' / Benny y Bws (fersiwn Saesneg a Chymraeg o'r stori yn yr un llyfr) wedi'i darlunio'n hyfryd gan Phoebe ac Ezmee Mason, merched Darren a Gemma Mason o gwmni bys Narberth Travel. Mae'r ddwy yn mwynhau celf ac wedi cymryd eu hamser i gynhyrchu pob tudalen o'r llyfr. Mae'r llyfr bellach wedi'i gyhoeddi ac mae Phoebe ac Ezmee yn rhoi cyfraniad i'r GIG o werthiant pob llyfr.

Bws ysgol yw Benny y Bws a sylwodd un diwrnod ym mis Mawrth 2020 fod yr holl fysiau eraill yn y fflŷd yn drist iawn. Roedd yn anarferol i'w ffrindiau, Dennis, Bws Pellter, Cecil y Goets, Annie, Bws y Maes Awyr a gweddill y gang gael eu parcio yn y depo. Beth oedd yn digwydd? Wrth i Benny ollwng ei blant ysgol i ffwrdd y prynhawn hwnnw mae'n gweddio am eu diogelwch ac yn gobeithio bod yn ôl ar ffyrdd Sir Benfro yn fuan. Ond beth sydd yn digwydd i Benny a sut mae'n teimlo? Pryd fydd bywyd yn dychwelyd i normal i'r diwydiant bysiau?

I gael copi o'r llyfr, cysylltwch â 01834869393 neu e-bostiwch info@narberth-travel.co.uk. **£7.99 + postio**

H THOMAS a'i FAB

Peiriannydd Amaethyddol

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion

TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr

Siop Radio a Theledu
CRYMYCH

Setiau ar werth

Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

Aeres Williams
Hyfforddwraig Gyrru

Glandy Cross, Clunderwen

Ffôn: 01994 419711
Sumudol: 07969 501551
aeresannadi@hotmail.co.uk

Noson Gymdeithasol Cymdeithas yr Hoelion Wyth



Cynhaliwyd noson gymdeithasol Cymdeithas yr Hoelion Wyth, drwy gyfrwng zoom, ar nos Wener, Mawrth 5ed.

Cafwyd tipyn o hwyl wrth wrando ar yr aelodau yn darllen limrige, brawddege a brynegeseuon yn ogystal ag adrodd ambell stori. Ein gwr gwadd oedd CCM - Clive Cwm Meils a cafodd pawb fwyn-had mowr wrth wrando arno'n canu ambell gan ac adrodd nifer o storie doniol.

Roedd cyfarfod rhithiol fel hyn yn ffordd hollol newydd o gyfathrebu i fwyafrif yr aelode, ond mi weithodd yn syndod o dda ar y cyfan. Wedi dweud hynny, cafodd y geirio "tro dy gamra mlan" a "tro'r sain bant / mute" ei ailadrodd nifer o weithe yn ystod y cyfarfod!

Trefnwyd y noson gan Eurfyl Lewis, Cadeirydd y Gymdeithas. Diolchodd Eurfyl i bawb wnaeth gyfrannu tuag at lwyddiant y noson ac yn arbennig i Clive am ddarparu adloniant ychwanegol i ni. Cynhelir y cyfarfod rhithiol nesa yng nghwmni'r sylwebydd am-ryddawn Wyn Gruffydd ar nos Sadwrn, Mawrth 27ain, edrychwn mlan am noson hyfryd yn ei gwmni.

Roedd gwaith caled iawn o flaen ein beirni-aid gyda'r holl gystadlu. Mae ein diolch yn mynd iddynt hwy i gyd am eu gwasanaeth.
Adran Gerdd: Alaw Llwyd Owen
Adran Lefaru: Nia Wyn Tudor
Adran Ysgafn: Eurfyl Lewis
Adran Gwaith Cartref: Dafydd Vaughan
Y Gadair a'r Goron: Osian Wyn Owen

Enillydd y Goron am eleni yw Sioned Howells a Sioned hefyd yw enillydd y Gadair am eleni. Llongyfarchiadau iddi am wneud y dwbl. Fe ddaeth Sioned yn 1af yn y goron yn 2017 ac yn 2ail yn y goron yn 2016 a 2018. Mae Sioned Howells yn 21 mlwydd oed ac yn perthyn i Glwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni, lle mae wedi bod yn aelod ers 2011. Mae wedi cymryd rhan mewn amryw o gystadlaethau fel aelod; megis Siarad Cyhoeddus, Rali'r Sir, Cystadleuaeth adloniant a'r Eisteddfod. Hi oedd Aelod Iau C.Ff.I Sir Gâr yn 2017. Roedd Sioned yn Prif Ferch yn Ysgol Bro Teifi yn 2017-18 ac mae erbyn hyn yn astudio Bydwreigiaeth ym Mhrifysgol Abertawe.

Gellir gweld canlyniadau'r Eisteddfod yn llawn ar ein gwefan, ynghyd â linc i wyllo'r holl geisiadau yn y cystadlaethau llwyfan: www.carmsyfc.org.uk

Gweler canlyniadau Clwb Penybont ar dudalen 26/27. Hefyd yn yr adran Gwaith Cartref, cystadleuaeth i aelodau 27 neu iau - 3ydd - Hannah Evans, Clwb San Clêr.



Eisteddfod Rithiol C.Ff.I. Sir Gâr 2021

Am y tro cyntaf erioed eleni, cynhaliwyd Eisteddfod Rithiol. Ar ôl derbyn nifer o geisiadau ar draws yr holl adrannau, C.Ff.I Penybont oedd yn fuddugol, gyda C.Ff.I Llanddarog yn ail. C.Ff.I Penybont oedd hefyd yn fuddugol yn yr adran gwaith cartref.

AWEN TEIFI

Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a CDau

Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn

Ffôn: 01239 621370

23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

SH.WLDIWMWL.CYMRU

CRYSAU
WEDI
ARGRAFFU
A SIOP
AR-LEIN

sales@shwldimwl.cymru 01994 448626

SONIA'S

Siop Trin Gwallt
Llandysilio

Oriau Agor

Mercher: 5.30y.h - 9.00y.h.

Iau: 8.00y.b. - 3.00y.p.

Gwener: 9.00y.b. - 6.00y.h.

Sadwrn: 8.00y.b. - 2.00y.p.

Ffôn: 01437 563816



**Login
Hendygywyn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk**



Croeso i'n dewis o wibdeithiau, gwibdeithiau theatr, gwyliau byr a gwyliau ar gyfer 2021/2022
Mae rhywbeth at ddant pawb. Gofynnwch am gopi o'n pamffled neu ewch ar-lein am fanylion llawn.
Mae'r tîm yma yn Jones Login yn edrych ymlaen at eich croesawu yn ôl ar fwrdd yn 2021 a thu hwnt.

Nifer o ddyddiau**Nifer y dyddiau****Mai**

Llun 17 **Efrog - 'A Ramble in the Shambles'** 5
Sad 22 **Sioe Strictly Come Dancing - The Professionals, AMC** 1
(Dyddiad mwy na thebyg i'w hail drefnu!)

Mehefin

Maw 1 Taith Dirgel 1
Sad 5 **Safari Siocled** 2
Llun 7 **Gwesty Warner - Cricket St. Thomas** 1
Sad 12 Gwibdaith Sir Benfro 1
Mer 16 **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** 3
Sad 19 Llanbed, Pontarfynach, Aberystwyth a Aberaeron 1
Llun 21 **'Brighton' up you week on the South Coast** 5
Sad 26 **Sioe Gerdd - School of Rock, CMC** 1
Llun 28 **Potter around the Shires** 5

Gorffennaf

Sad 3 Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan 1
Llun 5 **Iwerddon - Sligo a'r Wild Atlantic Way** 6
Iau 15 **Cernyw - The Quay to Cornwall** 5
Iau 22 **Yr Alban - Taith Mawreddog** 9
Sad 24 **Sioe Gerdd - We Will Rock You, CMC** 1

Awst

Iau 12 **Castell Highclere - 'Downton Abbey'** 2
Sad 14 **Sioe Gerdd - Waitress, CMC** 1
Maw 31 Taith Ddirgel 1

Medi

Gwe 3 **Kynren - An epic tale of England** 4
Sad 4 **Sioe Riverdance - Penblwydd 25, NDS** 1
Iau 9 **Paint a picture in Constable Country** 5
Sad 11 Aberhonddu a 1
Chanolfan Arddio Y'r Hen Rheilffordd, Three Cocks
Gwe 17 **Gwesty Warner - Castell Bodelwyddan** 4
Mon 27 **Devon on Earth** 5

Hydref

Mon 4 **Gwesty Warner - Neuadd Thoresby** 5
Thu 14 **Concorde, Castles & Codebreakers** 5
Wed 13 **Cyngerdd Daniel O'Donnell, NDS** 1

Tachwedd

Llun 15 **Noson yng Nghwmni :-** 1
Tim Peake - Fy'n Nhaith i'r Gofod, NDS
Iau 18 **Cyngerdd Katherine Jenkins, NDS** 1
Sad 27 **Nadolig ar y Coblau:** 2
Coronation Street - Y Daith

Rhagfyr

Sad 4 **Sioe Gerdd - Strictly Ballroom, The Musical, CMC** 1
Sad 4 **Nadolig Windsor** 2
Sad 11 **Sioe Gerdd Cyfnod y Nadolig,** 1
(Sioe i'w gadarnhau!) CMC
Sad 11 **Longleat - Gwyl Olau** 2
Sad 11 Siopa Nadolig Trago Mills, Merthyr 1
Iau 23 **Nadolig yn Bournemouth** 5

Ionawr 2022

Sad 22 **Sioe Gerdd** 1
The Lion, The Witch & The Wardrobe, CMC

Gorffennaf 2022

Sad 9 **Sioe Gerdd - Y Lion King, CMC** 1

Tachwedd 2022

Sad 5 **Sioe Gerdd - Sister Act, CMC** 1

Mai 2023

Sad 27 **Sioe Gerdd - Y Commitments, CMC** 1

Llyfryn 2021 ar gael nawr!
Ffoniwch 01437 563277 i fynegu gopi neu
gwelwch ar lein @
www.joneslogin.co.uk/media/1151/2021-brochure.pdf

Mynegai math o daith a lleoliadau:

Gwibdaith / Gwibdaith Sioe neu Chyngerdd

Gwyliau Byr a Gwyliau

CMC = Canolfan Mileniwn Cymru / NDS = Neuadd Dewi Sant /
AMC = Arena Motorpoint, Caerdydd

Gwasanaethau eraill:

Bysiau 8 - 70 sedd i'w llogi ar gyfer busnes neu bleser.

Teithlenni wedi'u gwneud yn benodol, trefniadau a chyflenwad
gwasanaethau trydydd parti fel tocynnau a llety ar gyfer
gwibdeithiau, teithiau a gwyliau i grwpiau preifat a sefydliadau.

NEWYDDION

Cyfleuster archebu ar-lein yn dod yn fuan !!!



Gellir trefnu Mordeithiau Fred Olsen ar eich rhan. Mae argaeledd a phrisiau ar gais a byddent yn cynnwys trosglwyddiadau o drws i ddrws ac o'r porthladd. Ewch i:
www.fredolsencruises.com



Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!



O dan yr amgylchiadau presennol, mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn gweithio i ddarparu gweithgareddau a sesiynau i chi allu parhau i gymdeithasu a byw yn Gymraeg yn ddigidol.

Dydd Gŵyl Dewi:

Noson Coginio gyda Lloyd Henry:

Fe ddathlodd y Fenter Dydd Gŵyl Dewi ychydig yn wahanol eleni ac un n o'n prif ddigwyddiadau oedd noson goginio yng ngofal Lloyd Henry. Cafwyd noson yn coginio dau bryd ar thema Gŵyl Ddewi dros Zoom. Fe wnaethom gwcan Pasteiod Cig Oen Cymreig a Bara Brith. Diolch i bawb ymunodd â ni wrth greu swper a phwddin blasus ac i Lloyd am arwain y sesiwn yn hwyliog ac am rannu syniadau coginio cyffredinol defnyddiol. Dywedodd mynychwr:

Diolch yn fawr am y sesiwn yma, nes i a'r merched fwynhau coginio gyda'n gilydd o dan arweiniad a chael swper ar gyfer nos fory wedi'i baratoi yn barod yn fonws. Edrych ymlaen at y nesaf yn barod.

Noson Creu Addurn Bwrdd gyda Wendy, Blodau Blodwen:

Ar nos Wener y 26ain o Chwefror cynhaliwyd noson hyfryd dros Zoom o drefnu blodau dan arweiniad Wendy Davies sy'n rhedeg cwmni Blodau Blodwen. Bu Wendy'n brysur yn paratoi pecynnau o flodau ac addnoddau o flaen llaw i'r rhai oedd wedi cofrestru. Daeth pawb i'r noson gyda'u pecynnau a'u sisyrnau yn barod i fynd ati. Dangosodd Wendy sut i greu addurn bwrdd bendigedig ar gyfer Gŵyl Ddewi a bu'n cynnig cyngor adeiladol a defnyddiol wrth fynd ymlaen. Erbyn diwedd y noson gwelwyd llond sgrin o addurniadau gwych. Diolch i bawb a fynychodd ac i Wendy am ei thalent aruthrol.

Cystadleuaeth Limrig a Brawddeg:

Eleni trefnwyd cystadleuaeth ar y cyd rhwng y Fenter, Cyngor Tref Caerfyrddin ac Ysgol Farddol Caerfyrddin i ysgrifennu limrig a brawddeg ar gyfer oedolion ac oed Uwchradd. Hoffem ddiolch i Geraint Roberts am feirniadu'r gystadleuaeth. Llongyfarchiadau mawr i bawb gystadlodd ac i bawb ddaeth i'r brig. Dyma'u gwaith - 1af yn unig:

Limrig Agored

1af - Beryl Williams

Cawn ddathlu'n wahanol eleni,
Wrth wasgu botymau'n reit handi.
Dim crwstyn na chawl,
Dim anthem na bawl
Ond gwenodd yr hen Sant, tapini!

Limrig Uwchradd

1af - Lleucu-Haf Thomas.

Eleni cynhaliwyd eisteddfod,
Yn rhithiol i bawb y bu'r gorfod,
Ond yn hwylus yr aeth,
Ag yn bwysig i'r iaith,
Sdim dwy waith rhaid hybu Cymreictod.

Brawddeg Agored

1af - Victoria Evans

Dowch Eto Werinwyr I Sylfaenu Arwyddocâd
Nawddsant Teilwng.

Brawddeg Uwchradd

1af - Lleucu Haf-Thomas

Dros Erwau Walia Iaith Swynol A Nefolaidd Trysorwn

Cornel Creu:

Cynhaliwyd sesiwn Cornel Creu Gŵyl Ddewi ar y cyd â'r Atom ar y 27ain Chwefror. Roedd e'n fore llwyddianus a chyfle i blant a'u teuluoedd wneud gwaith crefft ar thema Cymru, canu caneuon am Dewi Sant a llawer iawn o hwyl. Roedd hi'n hyfryd bod yng nghwmni'r plant ac rydym yn edrych ymlaen at ein sesiwn nesaf adeg y Pasg.

Dywedodd rhiant: Diolch am drefnu sesiwn gartrefol a chyfeillgar. Fel rhiant fe wnes i fwynhau a braf gweld fy mab yn ymateb i'r arweinwyr wrth iddynt roi tasgau a holi cwestiynau. Diolch am gynnig sesiwn yn ystod y clo i allu gwneud rhywbeth cyffelyb er lles a datblygiad fy mhlen-tyn. Yn sicr byddwn yn ymuno eto yn y dyfodol.

Masnach Deg:

Cystadleuaeth arall gan y Fenter dros fis Chwefror oedd Cystadleuaeth Creu Rysait Masnach Deg. Llongyfarchiadau i Chloe Tasker am ei rysait Brownis. Roedd y wybodaeth yn cynnwys rhestr cynhwysion, dull coginio a llun blasus iawn o'r brownis. Llongyfarchiadau mawr Chloe, mae hamper cynhwysfawr Masnach Deg ar y ffordd i ti.

Fforwm Ieuenctid:

Bu rhai o drigolion yr ardal sy'n aelodau o Fforwm Ieuenctid Gorllewin Myrddin yn cerdded dros 10 diwrnod o'r 11eg i'r 21ain, er mwyn codi arian i elusen Meddwl.org. Mae'r elusen yn rhoi cymorth a gwybodaeth i rai sydd yn dioddef o broblemau iechyd meddwl. Ar yr adeg yma mae gofalu ar ôl ein hiechyd meddyliol yn hynod o bwysig ac roedd y Fforwm yn teimlo bod cefnogi'r elusen yma yn syniad da. Dros y 10 diwrnod mi wnaeth aelodau'r Fforwm lwyddo i gerdded 324.45 milltir a thrwy hynny, codi £455 ar gyfer yr elusen.

Er bod y 10 diwrnod wedi dod i ben, mae dal modd i chi gyfrannu at achos da. Ewch i dudalen Facebook Urdd Myrddin neu Menter Gorllewin Sir Gâr er mwyn dod o hyd i'r ddolen JustGiving a gwybodaeth bellach. Gallwch hefyd ddefnyddio'r ddolen isod; <https://www.justgiving.com/fundraising/cerddeddrosmeddwl>.

Sesiynau Cymorth Digidol:

Rydym fel Menter yn cynnig cymorth digidol. Gallwn gynnig cymorth i chi ddefnyddio unrhyw ddyfais neu i'ch helpu i ddatblygu unrhyw sgiliau digidol. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cysylltu gyda ni a gallwn gynnig cymorth 1 i 1 i chi dros y ffôn neu dros Zoom. Os oes gennych unrhyw anghenion eraill cysylltwch gyda ni am sgwrs. Cysylltwch ar 07939 962042 neu e-bostio ceris@msgg.cymru i drefnu eich sesiwn.

Byddwn yn parhau gyda'n darpariaeth o eitemau a chy-fresu difyr megis Gwneud Bywyd yn Haws gyda Hanna Hopwood Griffiths, ein cystadleuaeth ffotograffiaeth wythnosol, ein fideos amser stori a chreu crefft, ap yr wythnos a chwis cyflym.

Gweithgaredd	Digwyddiad	Dyddiadau	Amser	Grŵp oedran	Mewn cydweithrediad	Cofrestru drwy
Sesiynau Cymorth Digidol	Dros Zoom	I'w drefnu	I'w drefnu	Oedolion		ceris@msgg.cymru
Clwb Darllen Oedolion	Dros Zoom	Misol 20/04/21	7yh	Oedolion		ceris@msgg.cymru
Clwb Darllen Dysgwyr	Dros Zoom	Misol 27/04/21	7yh	Oedolion	Yr Atom	ceris@msgg.cymru
Sgyrsiau Cefn Gwlad	Dros Zoom	Misol	7:30yh	11 oed +	Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr	nia@msgg.cymru
Coffi a Chlone	Dros Zoom	Wythnosol 01/04/21, 08/04/21, 15/04/21, 22/04/21, 29/04/21	10:30yb	Oedolion		denise@msgg.cymru
Clwb Joio Drama	Dros Zoom	Wythnosol 07/04/21, 14/04/21, 21/04/21, 28/04/21	5:00yp	Blynnyddoedd 2, 3 a 4	Theatr Genedlaethol Cymru	alma@msgg.cymru
Disgo Cwis	Dros Zoom	Wythnosol 05/04/21, 12/04/21, 19/04/21, 26/04/21	4:00yp	Oed Cynradd		alma@msgg.cymru
Dosbarth Meistr Perfformio	Dros Zoom	11/03/21, 18/03/21, 25/03/21	6:00yh	Blynnyddoedd 9 - 13	Theatr Genedlaethol Cymru, Menter Dinefwr a Menter Cwm Gwendraeth Elli	alma@msgg.cymru
Fforwm Ieuencid	Dros Zoom	Misol	4:00yh	Rhwng blwyddyn 11 a 25 mlwydd oed	Urdd Myrddin	alma@msgg.cymru

Cyfyngau Cymdeithasol:

Gyda'r cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y Fenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein. Am y diweddaraf, ewch i'n cyfyngau cymdeithasol:

Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar ● Trydar - @MenterGSG ● Instagram - @MenterGSG

E-bost - ceris@msgg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch gyda Ceris dros y ffôn: 07939 962042.

Hawl i Holi

Mae'r gyfres radio Hawl i Holi yn ei hôl! Er nad oes cyfle i deithio i gymunedau Cymru ar hyn o bryd, mae'r rhaglen Hawl i Holi yn ei hôl. Dewi Llwyd sy'n cyflwyno, herio a chadw trefn ar 4 panelydd. Gan ddarlledu yn fisol ar Radio Cymru rydym yn awyddus iawn i glywed gan gyfranwyr o bob rhan o'r wlad. Os oes gennych chi gwestiwn neu bwnc yr ydych chi am i'n panelwyr ymateb iddo byddem wrth ein boddau'n clywed gennych.

Bydd y rhaglenni nesaf ar Ebrill 1af ac Ebrill 29ain am 6 yr hwyr.

I gysylltu mae modd ffonio 03703 500700 yn ystod oriau gwaith neu e bostio hawliholi@bbc.co.uk



**ARBENNIGWR
LAND ROVER
ANNIBYNNOL**



MOT



♦CEIR ♦BEICIAU MODUR ♦FANIAU ♦4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf



ARBENIGWYR LAND ROVER YN SAN CLÊR, SIR GÂR

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

**♦RHANNAU SBAR ♦GWASANAETH ♦TEIARS
♦BATRIS ♦WELDIO ♦TRACIO PEDAIR OLWYN
♦TYMHERU AER**

Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP

Pigiad

Yn ystod mis Ionawr mi wnaeth y syniad taro fi bod y gair 'pigiad' yn llawer gwell na'r gair Saesneg 'jab'. Mae 'jab' yn awgrymu gweithred sydyn a di-ofal tra bod 'pigiad' yn awgrymu rhywbeth mwy gofalus a thwyer. Dydi o ddim yn help bod 'Jab' yn odli efo 'stab'.

Chi'n gweld roeddwn i wedi cael y llythyr i ddweud mod i'n mynd i gael y pigiad yn ystod yr wythnosau canlynol ac i ddisgwyl y llythyr a fydd yn cadarnhau'r apwyntiad.

Roedd fy meddwl i'n mynd yn ôl i fy nyddiau ysgol a'r diwrnod pan oedd y nyrs yn galw i roi injecshyn i ni. Dyna beth oedd o yn y dyddiau hynny, roedden ni'n cael injecshyn achos roedd hyn yn llawer cyn i rywun benderfynu bydd y gair 'pigiad' yn llawer gwell. Doedd dim sensitifrwydd am y peth, roedd holl blant y dosbarth yn sefyll mewn rhes ac yn gweld pob plentyn o'u blaenau yn gwingo mewn poen. Os oeddech chi ar ddiwedd y rhes roeddech chi wedi codi ofn yn ofnadwy erbyn eich tro chi.

Chi bobl ifanc! Does gennych chi ddim syniad o faint oedden ni'n gorfod dioddef!

Mae pethau'n llawer gwell erbyn hyn wrth gwrs ac roeddwn i'n edrych ymlaen at gael y peth drosodd. Am chwech o'r gloch ar ddiwrnod olaf mis Ionawr roeddwn i'n eistedd yn yr adeilad yma oedd wedi cael ei addasu ar gyfer marathonaau o bigiadau. Chwarae teg i'r Gwasanaeth Iechyd roedd y ffordd o weithio yn reit slic. Roedden ni i gyd yn eistedd ar gadeiriau ar ddwy ochr yr ystafell hirsgwar a fi oedd y cyntaf yn y rhes. Dyma'r nyrs yn dod ataf fi efo'i throli, tynnu clipfwrdd allan ac yn cadarnhau fy enw a chyfeiriad ac ati ac wedyn yn gofyn cwestiynau am fy nghyflwr iechyd. Dw i'n falch o ddweud fy mod i wedi ymateb pob un yn gywir ac fel gwobr am hynny ces i'r pigiad. Wedyn mi nes i siomi fy hun, ia, mi nes i grio! Ond roeddwn i'n teimlo'n llawer gwell ar ôl i'r nyrs roi cwtsh i mi!

Hen dric dw i'n gwybod, ond mae'n gweithio pob tro!

Rob Evans

George's
o San Clêr
Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol



**Pysgod • Sglodion • Risols
Selsig • Cyw lân • Dioddydd**

Ar agor Llun i Sadwrn

11.30 - 21.30

**Croeso i chi archebu
ar y ffôn**

01994 231482

**Heol yr Orsaf,
San Clêr**



CARTREF ODDI CARTREF



**Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER**

**FFONIWCH
SHEILA BEYNON
Y RHEOLWRAIG
01994 230855**




Cawl Potsh



CYSTADLEUAETH Cyfle i un darlennydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mae'r Compot, bin compostio arbennig Rhoswen, yr hwch, yn llawn o grafion llysiau a gwastraff bwyd. Fedrwn chi aildrefnu'r llythrennau i ddarganfod gwastraff pa fwydydd sydd yn y Compot?



Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 8/4/21

Sofia Campbell, Heol Bronwydd, Caerfyrddin yw enillydd Cystadleuaeth Mis Ionawr.
Ateb Cystadleuaeth Mis Ionawr: 25 o galonnau oedd ar y garthen arbennig.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
Cyhoeddir y gyfres gan Gomer. www.wenfro.cymru

© y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2021



Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi yn y rhifyn nesaf.

RR



PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus iawon i Letti Alis Evans a oedd yn 4 oed ar 5ed o Chwefror a Dyfed Celt Evans a fydd yn 6 oed ar Fawrth 26ain. Cariad mawr wrth Dadi, Mami, Scarlet a Cali xxxx



Pen-blwydd hapus i Efan sy'n 7 oed ar Ebrill 17eg. Cariad mawr wrth Dad, Mam, Griff, Mangu Llinos, Geraint, Hen Dadcu Roy a gweddill y teulu. Ti werth y byd i gyd xxx



Penblwydd Hapus 5oed i Gruffudd Llewelyn sydd wedi dathlu ei benblwydd ar Chwefror 20fed. Cariad mawr Mami, Dadi, Gwilym Huw, Mangu a Dadcu Waunfach, Login, Mangu Price, Sanclêr a Grandma a Grandpa Ffairfach.



Penblwydd hapus i Jared oedd yn 4 oed ar y 12fed o Fawrth. Cariad mawr wrth Mami, Dadi, Ffebi a'r teulu i gyd. x x x



Penblwydd hapus i Daniel James o Benybont-ar-Ogwr a oedd yn 3 oed ar Chwefror 27ain. Daw'r cyfarchion oddi wrth Dadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn Pwll Trap), Anti Iona ac Wncwl Ceri.



Penblwydd Hapus i Miriam Haf Wyn sy'n byw yn Llangynnwr. Mae Miriam yn dathlu ei phenblwydd cyntaf ar Ebrill 24ain. Dyw hi heb gael chwarae na chyfarfod ag unrhyw fabi arall eto oherwydd amgylchiadau Covid arnom ni gyd felly gobeithio bydd y flwyddyn nesaf yn un tipyn mwy cymdeithasol i bawb! Mwynha dy benblwydd Miriam fach!



Penblwydd hapus i Sara Elena Jones, Blaenau, Rhydaman a fydd yn 3 oed ar 25ain o Ebrill. Cariad mawr wrth Dad, Mami, Gwenno, Tadcu a Mangu Bancyfelin a'r teulu i gyd.



Dymuniadau gorau i Elan Eynon, Aberbanc oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 9 oed ar yr 20fed Mawrth. Oddi wrth Dad, Mam, Tomos, Dadcu a Mangu Saron, a Dadcu a Gu gu Penbontbren Login a'r teulu i gyd. xx